# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**1.30 y.h., DYDD IAU, 24AIN MEDI, 2026**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Lleoliad

**Hybrid - Siambr Dafydd Orwig, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Annes Sion**

**01286 679490**

**AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Mercher, 16 Medi 2026)

**Ian Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth**

www.gwynedd.llyw.cymru

**DYDD MERCHER, 16 MEDI 2026**

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 24 MEDI 2026**

**FE’CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod aml-leoliad o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.30 y.h., DYDD IAU, 24AIN MEDI, 2026 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, CAERNARFON LL55 1SH / RHITHIOL AR ZOOM**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i’r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol – Siambr Hywel Dda
Grwp Llafur / Rhydfrydol – Ystafell Ogwen

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. COFNODION** 6 - 17

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y Cyfarfod Blynyddol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf, 2026 fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.18 o'r Cyfansoddiad.

**7. ARDOLL TWRISTIAETH** 18 - 22

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet dros Economi a Chymuned.

**8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PANEL STRATEGOL DIOGELU 2025-26** 23 - 53

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Panel Strategol Diogelu.

**9. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2025-26** 54 - 84

Cyflwyno Adroddiad Blynyddol Craffu.

**10. RHYBUDDION O GYNNIG**

**(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD CAI LARSEN**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd dan Adran 4.19 o'r

Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Cai Larsen yn cynnig fel a ganlyn:-

Mae'r Cyngor hwn:

**Yn nodi'r** cynnydd yn nifer y cartrefi modur a faniau gwersylla sy'n defnyddio lleoliadau ar draws Gwynedd i barcio ac aros dros nos, gan gynnwys cilfannau, meysydd parcio, ardaloedd arfordirol a mannau prydferth;

**Yn cydnabod** y cyfraniad pwysig y gall ymwelwyr sy'n defnyddio cartrefi modur a faniau gwersylla ei wneud i economi Gwynedd, ac yn croesawu ymwelwyr sy'n defnyddio cyfleusterau priodol ac sy'n parchu ein cymunedau a'n hamgylchedd;

**Yn mynegi pryder**, fodd bynnag, ynghylch achosion lle mae cerbydau'n aros am gyfnodau estynedig mewn mannau nad ydynt wedi eu bwriadu ar gyfer hynny, gan feddiannu mannau parcio, achosi problemau i drigolion a defnyddwyr eraill, a rhoi pwysau ar rai o ardaloedd mwyaf sensitif a phoblogaidd y sir;

**Yn nodi** bod y Cyngor eisoes wedi sefydlu safleoedd Arosfannau pwrpasol ar gyfer cartrefi modur, ond bod problemau parcio ac aros dros nos amhriodol yn parhau mewn nifer o leoliadau;

**Yn cydnabod** bod cyfyngiadau ar gapasiti ac adnoddau dynol y Cyngor yn gallu ei gwneud yn anodd gweithredu ym mhob lleoliad ar yr un pryd, ond **nid yw'n derbyn y dylai diffyg capasiti i weithredu ym mhobman olygu na ellir mynd i'r afael â phroblemau amlwg a pharhaus mewn lleoliadau penodol.**

**Felly, mae'r Cyngor yn galw ar y Cabinet a'r Aelod Cabinet perthnasol i fynd i'r afael â'r problemau sy'n deillio o barcio ac aros dros nos amhriodol gan gartrefi modur a faniau gwersylla ar draws Gwynedd, ac i ystyried pa gamau y gellir eu cymryd i ddod â gwell rheolaeth ar y sefyllfa.**

## (B) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD PAUL ROWLINSON

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd dan Adran 4.19 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Paul Rowlinson yn cynnig fel a ganlyn:-

Mae'r Cyngor

- yn pryderu am y nifer o blant a phobl ifanc sy'n reidio e-sgwteri ar balmentydd a ffyrdd cyhoeddus;
- yn credu bod hyn yn peryglu diogelwch y rhai sy'n eu defnyddio a diogelwch cerddwyr, yn enwedig y rhai sydd â nam ar eu golwg;
- yn nodi bod e-sgwteri yn dod o fewn y diffiniad cyfreithiol o 'gerbyd modur'. O ganlyniad, maent yn destun yr un gofynion ag sy'n ofynnol ar gyfer cerbydau modur eraill, megis eu

trwyddedu a'u hyswirio a'r angen i fod â thrwydded yrru i'w defnyddio ar ffyrdd cyhoeddus. O ganlyniad, ni ellir eu defnyddio yn gyfreithlon heblaw ar dir preifat gyda chaniatâd y tirfeddiannwr;

- yn nodi bod e-sgwteri yn cael eu treialu gan lywodraeth y DG ac fe'u caniateir ar ffyrdd o fewn rhai ardaloedd ond nid yw'r un o'r rhain o fewn Gwynedd;
- yn credu nad yw llawer o rieni a phobl ifanc yn sylweddoli bod defnyddio e-sgwteri ar ffyrdd cyhoeddus yn anghyfreithlon ac y gall yr heddlu atafaelu'r e-sgwter a chyflwyno adroddiad trosedd traffig sef 'gyrru cerbyd modur heb yswiriant trydydd parti', gan arwain at ddirwy o £300 a 6 phwynt ar drwydded yrru'r gyrrwr.

**Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem hon, mae'r Cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DG i ystyried pa gamau y gallent eu cymryd / pa reoliadau y gallent eu cyflwyno, er mwyn mynd i'r afael â'r broblem.**

**11. YMATEBION / DIWEDDARIADAU I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL** 85 - 86

Llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i Rybudd o Gynnig y Cynghorydd Huw Rowlands i gyfarfod 2 Gorffennaf 2026 o'r Cyngor ynglŷn â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

**CYFARFOD Y CYNGOR 02/07/2026**

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Elin Walker Joes (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:**
Craig ab Iago, Stephen Churchman, Wendy Cleaver, Dafydd Owen Davies, Anwen J Davies, Dafydd Owen Davies, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Gwion Emyr, Alan Jones Evans, Gwilym Evans, Dylan Fernley, Delyth Lloyd Griffiths, Jina Gwyrfai, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, R. Medwyn Hughes, Elin Hywel, Nia Wyn Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Elwyn Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, Huw Wyn Jones, June Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Beth Lawton, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, Geraint Parry, Nigel Pickavance, John Pughe, Rheinallt Puw, Arwyn Herald Roberts, Beca Roberts, Elfed P Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Ioan Thomas, Peter Thomas, Menna Trenholme, Rhys Tudur, Hefin Underwood, Einir Wyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams, Sasha Williams a Sian Williams.

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Catrin Thomas (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dewi A Morgan (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol), Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith) ac Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Gareth A Roberts, Menna Baines, Dafydd Meurig a Gareth Coj Parry.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 14 Mai 2026 fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Nodwyd cydymdeimlad â theulu Robin Evans o Gaernarfon, yn wreiddiol o Eifionydd, a fu farw yn ddiweddar. Gwnaeth gyfraniad sylweddol i'r diwydiant teledu, yn un o sylfaenwyr Ffilmiau'r Nant a Rondo yma yng Ngwynedd, yn ogystal â bod yn aelod gwreiddiol o'r band Mynediad am Ddim. Cydymdeimlwyd a theuluoedd Gwynedd sydd wedi colli rhai annwyl iddynt yn ddiweddar.

Llongyfarchwyd y Cynghorydd Dawn Lynne Jones am ennill gwobr Gymunedol Comisiynydd yr Heddlu. Mynegwyd llongyfarchiadau i Lois Medi o Fangor am ennill y Gadair yn Eisteddfod yr Urdd, Dafydd Llŷr Hughes o Lanbedrog ar ennill Ysgoloriaeth Artist Ifanc Eisteddfod yr Urdd a Katie Baddiley sydd yn Swyddog Cefnogaeth Gymunedol yr Heddlu yn Nyffryn Nantlle am gipio Medal Bobi Jones. Yn ogystal longyfarchwyd holl blant a phobl ifanc y sir a oedd yn cystadlu ac yn llwyddiannus yn yr Eisteddfod.

Nodwyd llongyfarchiadau i Leisa Gwenllian a holl gast a thîm cynhyrchu'r ffilm Effi o Blaenau. Dymunwyd pob lwc i holl athletwyr y sir a fydd yn cynrychioli Cymru yn Gemau'r Gymanwlad dros yr haf.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**6. CWESTIYNAU**

*(Cyhoeddwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau ymlaen llaw.)*

**(1) Cwestiwn Y Cynghorydd Huw Rowlands**

A ydy'r Aelod Cabinet dros Oedolion, Iechyd a Llesiant yn ymwybodol o rwystredigaeth gynyddol y cyhoedd oherwydd yr oedi sylweddol gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a Grŵp Cynefin o ran sefydlu canolfan iechyd ym Mhenygroes, sef Canolfan Lleu, a hefyd yr oedi sylweddol gan Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr o ran sefydlu Canolfan Iechyd newydd yn Waunfawr?

**Ateb yr Aelod Cabinet dros Oedolion, Iechyd a Llesiant, y Cynghorydd Dilwyn Morgan**

Diolchwyd am y cwestiwn a'r cyfle i godi ymwybyddiaeth am faterion sydd yn effeithio'r cyhoedd. O ganlyniad i'r negeseuon pwysig sydd yn yr ymateb ysgrifenedig nododd i fod am ei ddarllen fel a ganlyn.

Yn fy rôl fel Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol y Gogledd rwyf yn cydweithio'n agos gyda'r Bwrdd Iechyd ac yn cael adroddiadau cyson am y sefyllfa. Mae'r adroddiadau hyn yn berthnasol i'r cynlluniau a nodwyd ond hefyd i gynlluniau ehangach er mwyn gwella darpariaeth iechyd ar draws y rhanbarth. Cadarnhaf felly fy mod yn ymwybodol o'r sefyllfa a deallaf y rhwystredigaethau.

Fodd bynnag, hoffwn gynnig sicrwydd i'r aelod o'r gwaith cadarnhaol a chydweithio cryf sydd yn digwydd rhwng ein gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd yn Nyffryn Nantlle a Waunfawr. Mae gweithwyr proffesiynol o'r ddau sefydliad yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd, ymweliadau ar y cyd, asesiadau cydweithredol a thrafodaethau amlddisgyblaethol i sicrhau bod unigolion yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir. Mae diwylliant cryf o ddatrys problemau ar y cyd wedi datblygu, ac mae hyn yn wir ar draws y sir - nid dim ond i'r ardaloedd dan sylw, gyda staff yn gweithio'n greadigol ac yn hyblyg i ddod o hyd i atebion ymarferol i anghenion cymhleth.

Gwelir enghreifftiau da o gydweithio rhwng timau iechyd a gofal cymdeithasol i atal derbyniadau diangen i'r ysbyty, hwyluso rhyddhau amserol pan fo unigolion yn barod i adael ysbyty, a sicrhau bod y gefnogaeth briodol yn ei lle yn y gymuned. Mae cydweithio agos hefyd yn digwydd gyda'r gwasanaeth Tuag Adref er mwyn sicrhau dilyniant gofal cymesur a di-dor i unigolion wrth drosglwyddo o'r ysbyty yn ôl i'w cartrefi a'u cymunedau. Mae'r trefniadau hyn yn brawf o'r cydweithio rhwng partneriaid lleol gyda'r nod o wella canlyniadau i bobl leol ac i ddarparu gwasanaethau mwy integredig ac effeithiol.

**Cwestiwn Atodol Y Cynghorydd Huw Rowlands**

Be all Cyngor Gwynedd ei wneud i sicrhau gwireddu Canolfan Iechyd Waunfawr a Chanolfan Lleu yn y dyfodol rhagweladwy?

**Ateb yr Aelod Cabinet dros Oedolion, Iechyd a Llesiant, y Cynghorydd Dilwyn Morgan**

Diolchwyd am y cwestiwn. Mynegodd wedi iddo dderbyn y cwestiwn gwreiddiol ei fod wedi cysylltu â Chadeirydd y Bwrdd Iechyd yn bersonol, a bellach ei fod wedi derbyn amserlen

lawn ganddo o beth yw'r cynlluniau yn ddau leoliad. Nododd y bydd yn ei rannu gyda'r Aelod a holodd y cwestiwn ynghyd a'r aelodau lleol i'r ardaloedd hynny.

**(2) Cwestiwn Y Cynghorydd Gruffydd Williams**

Yn dilyn dyfarniad unfrydol y Goruchaf Lys yn achos For Women Scotland v Scotland Ministers (Ebrill 2025) bod 'sex' yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn golygu rhyw biolegol (birth sex), a chanllawiau diweddaraf yr EHRC sy'n cadarnhau hynny (gan gynnwys y Cod Ymarfer a ddiweddarwyd yn 2026 ), mae'n dilyn o dan y gyfraith fod caniatáu "merched traws" i fynd i mewn i fannau merched yn unig yn golygu na ellir amddiffyn y gofod yn gyfreithlon mwyach fel gofod i ferched yn unig. Pa gamau penodol felly y mae'r Cyngor wedi'u cymryd, neu'n bwriadu eu cymryd, i adolygu a diweddaru ei bolisïau, ei weithdrefnau a'i wasanaethau (e.e. toiledau, ystafelloedd newid, ysgolion, gwasanaethau un rhyw, chwaraeon, recriwtio) er mwyn ymgorffori'r canllawiau hyn yn llawn a pha bryd fydd adroddiad neu gynllun gweithredu ar y mater hwn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet neu'r Cyngor?

**Ateb yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol, y Cynghorydd Llio Elenid Owen**

Atebwyd drwy bwysleisio pwysigrwydd nodi fod Canllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau dynol yn rhai drafft ar hyn o bryd a'i fod yn parhau i fod yn destun ymgynghoriad, ystyriaeth a datblygu pellach cyn i unrhyw benderfyniad terfynol gael eu gwneud. Eglurwyd y bydd y Cyngor, wrth symud ymlaen, yn ystyried ei ddyletswyddau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol yn ofalus, ac yn ceisio sicrhau bod unrhyw newidiadau yn y dyfodol y gyfreithlon, cytbwys a chymesur.

Amlygwyd un o'r egwyddorion allweddol yr adolygiad wrth symud ymlaen fydd i gynnal urddas, diogelwch a pharch pob unigolyn, gan gydnabod yr angen i ystyried a chydbwyso ystod o hawliau gwarchodedig yn ymarferol. Nodwyd fod yr Arglwydd Farnwr Hodge wedi nodi na ddylid gweld y dyfarniad fel buddugoliaeth o un ochor dros y llall, a bod pobl draws yn cael ei diogelu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn yr un modd ag unrhyw nodwedd arall.

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Gruffydd Williams**

Gan fod y Cyngor eisoes wedi dechrau archwilio'r goblygiadau dyfarniad Llys Goruchaf a chanllawiau drafft EHRC a "sex" fel rhyw biolegol, a allwch chi roi manylion penodol ar ba bolisïau neu wasanaethau sydd wedi'i hadolygu hyd yma er enghraifft toiledau, ystafelloedd newid, gwasanaethau un rhyw mewn ysgolion a chwaraeon, beth yw'r amserlen ar gyfer cwblhau'r adolygiadau a pryd fydd adroddiad neu gynllun gweithredu yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet neu Gyngor Llawn?

**Ateb yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol, y Cynghorydd Llio Elenid Owen**

Tynnwyd sylw unwaith eto fod y canllawiau yn parhau i fod yn rhai fersiwn drafft ac y bydd y Cyngor yn parhau i fonitro datblygiadau a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol unwaith y bydd fersiwn terfynol wedi'i gyhoeddi. Mynegodd ei fod yn destun trafodaeth gyson gyda'r swyddogion ac y byddant yn ystyried adroddiad i Gabinet os angen yn codi.

Cymerwyd y cyfle i ategu ymateb i'r un cwestiwn a dderbyniwyd y llynedd - sef fod y Cyngor yn ymrwymo i gefnogi hawliau merched a phobl draws a bod brwydro dros hawliau merched yn golygu brwydro dros hawliau merched dosbarth gweithiol, merched anabl, merched o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, a merched LGBTQ sy'n cynnwys merched traws. Pwysleisiwyd y dylai pawb gael y rhyddid i ddewis eu hunaniaeth rhywedd eu hunain ac y dylid parchu hynny ac yn sicr peidio ei heithrio o gymdeithas. Nodwyd fod croeso i bawb yng Ngwynedd a bod angen cefnogi a pharchu hawliau pawb. Mynegwyd fod amddiffyn hawliau pawb yn sail i safbwynt Plaid Cymru.

Nodwyd fod loes calon meddwl fod rhai pobl yng Ngwynedd yn gallu camddefnyddio'r dyfarniad hwn i wneud bywydau a cymunedau ar yr ymylon yn anoddach, a'u bod fel Cynghorwyr yma i gefnogi pob un o drigolion Gwynedd i gyd-fyw ac i fyw eu bywydau gydag urddas a pharch.

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGORAU SAFONAU 2025/26

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgorau Safonau adroddiad Blynyddol y Pwyllgor. Nododd ei bod wedi bod yn flwyddyn ddistaw gyda dim un gwrandawiad wedi ei gynnal. Diolchwyd i'r Aelodau am eu gwaith i gadw safonau uchel y Cyngor ac am eu cefnogaeth i'r Cynghorau Tref a Chymuned pan galw yn codi. Nodwyd diolch i'r Swyddog Monitro a'i dîm am eu cefnogaeth ac i'r Arweinwyr Grwpiau am roi blaenoriaeth i'r mater.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Holwyd o ran fframwaith cwynion beth oedd yr amserlen. Ymatebwyd drwy gymryd fod y cwestiwn am gwynion i'r Ombwdsmon gan nad yw'r Pwyllgor Safonau yn derbyn cwynion. Eglurwyd o ran y Pwyllgor Safonau os yn derbyn cwyn gan yr Ombwdsmon eu bod yn cael ei delio mewn mater o wythnosau. Wrth edrych ar yr Ombwtsmon mynegwyd fod yr amserlen yn gallu bod hyd at flwyddyn i gael ymchwiliad llawn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2025/26

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod 2025/26. Mynegwyd mai hwn oedd y pedwerydd tro i'r adroddiad gael ei gyflwyno yn unol â disgwyliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru. Eglurwyd fod yr adroddiad yn rhoi crynodeb o waith y Pwyllgor ynghyd a thystiolaeth ar effaith mae'n ei wneud.

Nodwyd fod pob Awdurdod Lleol mae'r Cyngor yn wynebu nifer o heriau ac mae pwysau parhaus ar gyllidebau gwasanaethau statudol yn enwedig ym maes gofal. Eglurwyd ei bod yn credu fod trefniadau llywodraethu'r Cyngor wedi parhau i ddangos gwydnwch. Ategwyd yn wyneb yr heriau ariannol hyn fod rôl y Pwyllgor o ran craffu ariannol wedi bod yn ganolog, ac wedi chwarae rhan flaenllaw wrth graffu ar y gyllideb, monitro gorwariant ac i asesu risgiau i gynaliadwyedd ariannol y Cyngor yn y tymor canolig a'r tymor hir.

Diolchwyd i'r holl swyddogion, yr Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg am eu hymrwymiad a'u cyfraniad drwy'r flwyddyn. Ychwanegwyd fod 2025/26 wedi bod yn flwyddyn o gryfhau a sefydlogi aelodaeth y Pwyllgor. Mynegwyd fod y flwyddyn wedi bod yn dilyn cyfnod o golled sylweddol gyda marwolaeth y diweddar Sharon Warnes a'r Cynghorydd Rob Triggs, ond fod eu cyfraniad i waith y Pwyllgor a'u hymroddiad i wasanaeth cyhoeddus yn parhau i'w hysbrydoli wrth barhau a'r gwaith.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Tynnwyd sylw fod canllawiau CIPFA yn pwysleisio'r angen i ddangos effaith y gwaith a gofynnwyd a oes modd cryfhau'r elfen hon drwy efallai dangos enghreifftiau o newidiadau o ganlyniad i'r pwyllgor yn fwy clir.

Gofynnwyd am fwy o wybodaeth am y ddau aelod o staff, sydd wedi ei amlygu yn y wasg yn ddiweddar, sydd wedi bod ar gyflog llawn am gyfnod o dros 9 mlynedd tra bod ymchwiliadau yn digwydd. Holwyd ar ba ricyn cyflog yr oeddent arnynt ac os oes mwy o bobl ar gyflogau llawn dros gyfnod hir tra bod ymchwiliadau yn digwydd. Ymatebwyd drwy nodi nad oes modd trafod staff unigol mewn cyfarfod agored, ond eu bod yn deall rhwystredigaeth y Cynghorydd ond nad oedd yn berthnasol i'r adroddiad hwn. Ychwanegwyd fod adolygiad ar y gweill ac y bydd casgliadau ymhen amser.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2025/26

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Wasanaethau Cymdeithasol.

I gychwyn ei gyflwyniad dangoswyd fideo am y cathod electroneg sy'n cael ei gynnig i gynorthwyo pobl gydag unigedd ac arwahanrwydd.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan gychwyn yn diolch i'r staff sydd gan y Cyfarwyddwr i'w gynorthwyo gyda'r gwaith. Mynegwyd fod y fideo a ddangoswyd yn un o nifer sydd yn hybu ac yn esbonio'r gwaith mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei wneud, ac yn dathlu pan mae gwaith da yn cael ei wneud. Er hynny nodwyd ei bod yn anodd sefyll yno yn ymfalchïo ar ôl blwyddyn mor gythryblus.

Amlygwyd pwysigrwydd adroddiad Cyfiawnder dros eu Dewrder er pa mor anodd yw cydnabod beth sydd wedi digwydd ynghyd ar oblygiadau hir dymor sydd i'r Cyngor a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mynegwyd balchder yn y gwaith cadarnhaol ac adeiladol sydd wedi ei wneud er mwyn sicrhau fod trefniadau diogelu ac amddiffyn y Cyngor y gorau posib. Nodwyd ei bod yn drasiedi i'r unigolion ynghyd a staff a disgyblion Ysgol Friars sydd wedi'i heffeithio. Ymhelaethwyd ar y gwaith diogelu sydd wedi ei wneud sydd yn mynd y tu hwnt i Wasanaethau Cymdeithasol a bod gwaith yn cael ei wneud ar y cyd gyda Gwasanaethau Corfforaethol i amlygu ei bod yn gyfrifoldeb ar bawb. Ychwanegwyd y bydd gwefan yn amlygu'r camau i adrodd ar unrhyw bryder, cefnogaeth a gwybodaeth yn cael ei lansio yn fuan.

Nodwyd fod maint yr adran yn ddychrynllyd o fawr gyda gwariant o bron i £150miliwn, gyda 1500 o staff yn fewnol a bron i 3000 o staff wrth edrych ar waith sy'n cael ei gomisiynu. O ganlyniad, ategwyd fod maint ac anferthedd y gwasanaethau yn ei gwneud yn heriol i Gynghorwyr herio'r gwasanaethau ar ei gwaith. Pwysleisiwyd fod methiannau yn anorfod a'u bod wedi bod yn amlwg iawn drwy Adroddiad Cyfiawnder drwy eu Dewrder ac yn fwy diweddar achos Bryn Ffynnon, er hynny fod yr adran yn ceisio gwella gwasanaethau. Eglurwyd ei bod yn system sylweddol o bwys ond dan bwysau a bod angen amddiffyn a diogelu plant ac oedolion yn well, a'u bod dan bwysau i wella a bod angen buddsoddi er mwyn gwneud hyn. Tynnwyd sylw at y faith fod llawer o arian wedi ei fuddsoddi dros y misoedd diwethaf er mwyn gallu ymateb i heriau yn gynt.

Pwysleisiwyd fod arian yn her. Esboniwyd fod gwaith mewnol yn cael ei wario yn dryloyw ond fod costau allanol megis costau cartrefi plant arbenigol yn uchel tu hwnt a bod y galw ar wasanaethau yn cynyddu. Tynnwyd sylw i'r faith fod cyfeiriadau plant wedi bron iawn dyblu ers Covid gyda bron i 8,000 o achosion dros y flwyddyn ddiwethaf. Amlygwyd fod gwaith Llechen Lan wedi ei gyhoeddi sydd yn amlygu fod demograffeg Gwynedd yn heriol gyda llai o bobl ifanc a mwy o bobl hyn ac o ganlyniad fod her o ddarparu gwasanaethau i'r dyfodol. Ymhelaethwyd fod yr adroddiad yn rhoi rhai atebion ond ei fod hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru am fwy o gefnogaeth.

Nodwyd fod buddsoddiad wedi bod mewn ymyrraeth gynnaf fel bod modd i bobl fyw yn annibynnol a chael aros yn eu cymunedau. Tynnwyd sylw penodol ar gynlluniau megis Tîm Trobwynt sydd wedi gweithio gyda 77 plentyn oedd am fynd i'r system gofal ond fod 64 wedi llwyddo i aros adref.

Gyda thechnoleg yn symud mor rhyfeddol o gyflym gyda Deallusrwydd Artiffisial, mynegwyd yr angen i weithio gydag ef, gan ddefnyddio'r gath yn y fideo fel enghraifft. Mynegwyd fod ymdeimlad yn cael ei roi fod defnyddio pethau o'r fath yn bychanu unigolion ond mewn realiti ei fod yn dangos pa mor real yw'r un cynllun bach yma a sut mae'n newid bywydau.

Eglurwyd fod yr adroddiad yn ceisio dangos y gwir sefyllfa a bod yn gymesur. Ategwyd fod adroddiad y llynedd yn nodi gobaith o leihau niferoedd sydd yn disgwyl am ofal cartref, ond nad yw hyn wedi digwydd. Nodwyd fod hyn oherwydd bod angen edrych ar y ffordd mae'n cael ei  ddarparu i sicrhau ei fod yn effeithiol. Pwysleisiwyd eto mae'r holl fwriad yw i bobl fyw yn eu cymunedau a chael ei bywyd gorau, sydd yn her gynyddol i'r adran.

Amlygwyd fod gwaith da yn cael ei wneud yn cydweithio gydag adrannau'r Cyngor megis tai ac addysg a thu hwnt gyda'r heddlu a'r gwasanaeth iechyd ond fod gwaith i wneud i wella yn draws adrannol ac yn strategaethol gydag Iechyd. I orffen nodwyd er bod y sefyllfa wedi bod yn heriol mae angen cydnabod y gwaith sydd wedi ei wneud, a diolchwyd i'r gweithlu sydd o dan bwysau parhaus ond sydd yn ymroddedig i blant, pobl fregus a henoed i roi'r gofal a chefnogaeth orau.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Diolchwyd i'r staff am eu gwaith mewn sefyllfa heriol dros ben, a chroesawyd adroddiad sy'n amlygu'r gwaith a'r argymhellion sy'n deillio o adroddiad Cyfiawnder drwy eu Dewrder. Amlygwyd dewrder yr unigolion, pawb sydd wedi'u cefnogi a'r unigolion sydd wedi dod yn ei blaen yn dilyn yr achos. Mynegwyd fod yr adroddiad wedi rhoi braint eithriadol i'r Cyngor i ddechrau eto. Gofynnwyd beth fyddai'r prif ddangosyddion i amlygu'r gwaith sydd wedi'i wneud i wella diogelwch plant a sut y gwall yr adran sicrhau capasiti, newid mewn diwylliant a threfniadau wrth ymateb i unrhyw ddysgu pellach. Ymatebwyd drwy nodi fod y mesurau yn amlwg iawn y gwaith y Bwrdd Ymateb sydd ar y we, ond beth sydd wedi'i bryderu yw bod llais y plentyn ddim wedi'i glywed ond fod hwn wedi bod yn gyfle i'w wirio. Amlygwyd fod buddsoddiad wedi'i wneud eleni i sicrhau fod llais plentyn yn ganolog i beth mae'r adran yn i wneud. Ategwyd fod llawer i'w ddysgu o'r cwynion sydd yn dod i mewn gan fod adroddiadau chwarterol a blynyddol yn amlygu themâu a bod camau yn cael eu gwneud i edrych ar weithdrefnau a pholisïau.

Diolchwyd am dynnu sylw at y drefn "Neges mewn Potel" a bod cyfrifoldeb gan Gynghorwyr i'w hannog yn eu cymunedau. O ran Teleofal, amlygwyd problem genedlaethol sydd wedi'i hamlygu yn dilyn digideiddio llinellau ffon, ac os oes camau i sicrhau fod y drefn yn gweithio pan fod trydan yn methu. Ymatebwyd drwy nodi fod problemau wedi codi o ganlyniad hyn y llynedd, a pan fo risgiau yn cael ei amlygu fod camau gweithredu mewn lle i sicrhau fod y system yn parhau i weithio.

Holwyd pam fod gwasanaeth Trais yn y Cartref wedi ei leoli yn yr Adran Tai ac Eiddo, ac onid a ddylai fod yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ble mae'r profiad o asesu a gofalu. Eglurwyd fod y gyllideb ar gyfer cefnogaeth tai, ble mae'r gwasanaeth yn cael ei ariannu, yn dod yn syth i'r Adran Dai ac Eiddo gan Lywodraeth Cymru. Ychwanegwyd fod hyn yn cael ei adolygu i ddod a'r holl wasanaethau at ei gilydd i greu un gwasanaeth yn hytrach na phocedi mewn mwy nac un lle. Ategwyd fod gwaith i'w wneud yn ogystal gyda'r arian sydd yn cael ei dderbyn drwy Gomisiynydd yr Heddlu, gan fod y swydd yn dod i ben.

Nodwyd fod y gair "methu" wedi dod yn aml yn y cyflwyniad heddiw ac nad yw'n air nad yw'n hoff o'i ddefnyddio. Amlygwyd fod gwaith yn cael ei wneud gan weithwyr rheng flaen ble mae pethau bach yn gwneud gwir wahaniaeth. Mynegwyd fod recriwtio yn broblem yn enwedig i staff rheng flaen a gofynnwyd a oes rhywbeth yn cael ei wneud i sicrhau nad yw'n parhau i "fethu".  Tynnwyd sylw at niferoedd sydd yn derbyn gofal cartref, sef 811, holwyd os oedd hyn yn nifer ar draws y sir. Ychwanegwyd fod yr adroddiad yn nodi fod 129 o bobl ag anableddau ar lwybr i waith a gofynnwyd faint bellach sydd wedi derbyn swyddi. Ymatebwyd drwy nodi fod gwaith da yn cael ei wneud gan staff rheng flaen a bod cydweithio da yn cael ei wneud ar draws gwasanaethau. Amlygwyd ei bod yn anodd cael staff ond ymfalchïwyd yng ngwaith yr academi gofal a'r niferoedd a ymgeisiodd am y rôl. O ran gofal cartref, cadarnhawyd fod y nifer ar gyfer y sir gyfan, a bod unigolion yn derbyn ar gyfartaledd rhyw 10 awr yr wythnos, ond nad oedd yn cynnwys yr 20% arall sydd yn derbyn gofal drwy daliadau uniongyrchol. Esboniwyd fod oddeutu 50 o bobl anabl o'r 129 bellach mewn swyddi.

Bu i un Aelod dynnu sylw at adnoddau ariannol gan amlygu fod rhai gweithgareddau megis “Hwyl yr Haf” i blant ag awtistiaeth wedi dod i ben. Amlygwyd ei bod yn angenrheidiol i wybod gwir effaith cael gwared â gweithgareddau o’r math yma cyn gwneud unrhyw benderfyniadau. Mynegwyd nad oedd Tîm Derwen ar gyfer gwasanaethau integredig plant ag anableddau ddim yn cefnogi pob plentyn anabl. Holwyd gyda gofalwyr di-dâl os oes gwaith yn cael ei wneud i amlygu ei hawliau. Ac i orffen tynnwyd sylw at y drefn cwynion gan nodi pryderon nad oedd modd i unigolion sy’n gofalu am oedolion bregus wneud cwyn wrth weld risgiau, gan mai dim ond y defnyddiwr gwasanaeth sy’n cael gwneud y gwyn. Ymatebwyd drwy nodi fodd Hwyl yr Haf yn gyfres o ddigwyddiadau a oedd yn cael ei ariannu gan y Llywodraeth, ond fod gwaith yn cael ei wneud i edrych beth fydd modd ei gynnal i’r dyfodol. O ran gofalwyr di-dâl nodwyd fod digwyddiadau yn cael ei gynnal ar draws y sir yn lled gyson er mwyn hyrwyddo hawliau gofalwyr. Ategwyd fod trafodaethau am greu pencampwyr gofalwyr di-dâl ym mhob ysgol a meddygfa fel bod cefnogaeth gyson ar gael. Esboniwyd o ran Derwen nad oedd modd cyrraedd pob un plentyn, hynny oherwydd rhwystrau megis rhestrau aros. Ymatebwyd o ran y sylwadau am gwynion fod y drefn gwynion yn cael ei gosod gan Lywodraeth Cymru, ac felly dim ond drwy ganiatâd defnyddwyr gwasanaeth gall ofalwr wneud cwyn am y gwasanaeth, oni bai ei fod yn fater diogelu.

Amlygwyd fod yr adroddiad yn disgrifio eleni fel un o’r blynyddoedd mwyaf heriol mae’r adran wedi ei gael. Mewn ymateb i hyn gofynnwyd a oes modd amlygu'r sialensiau sy’n bodoli ynghyd ag amlygu pa heriau a risgiau sy’n parhau, ac i amlygu'r gwersi sydd wedi ei dysgu a pa rai sydd wedi arwain at newid gwirioneddol. Mewn ymateb mynegwyd fod nifer o wersi wedi ei dysgu ond ei bod yn anodd dewis un, a cynigwyd cyfarfod unigol i’w trafod mewn manylder. O ran gwersi i’w dysgu'r prif un oedd gwrando ar lais y plentyn, a bod hyn yn ymestyn ymhellach na’r adran Gwasanaethau Cymdeithasol, a bod angen cyrraedd pwynt ble mae llais pobl ifanc i’w clywed ym mhob rhan o waith y Cyngor. Mynegwyd fod swyddog wedi ei benodi er mwyn gwrando ar lais y plentyn o’r Fforymau Pobl Ifanc, i Blant mewn Gofal a rhai sy’n derbyn cefnogaeth gan Gyfiawnder Ieuenctid. Drwy hyn, gobeithiwyd y bydd llais holistig yn cael ei glywed. Wrth edrych ar risgiau nodwyd fod risgiau beunyddiol yn benodol i’r rhai sy’n derbyn cefnogaeth, ond fod polisïau a gweithdrefnau’n cael ei greu er mwyn cadw pobl yn ddiogel.

Holwyd am y polisi cwympo, llynedd nodi fod gwaith wedi cychwyn ond a yw wedi parhau holwyd. Ymateb drwy nodi fod gwaith penodol yn cael ei wneud ar hyn o bryd, er nad yw wedi ei fabwysiadu yn llwyr mae gwaith yn cael ei wneud.

Diolchwyd am y fideo sy’n dangos y gwaith gyda’r cathod gan ei fod yn amlygu’r gwaith da sy’n cael ei wneud. Pwysleisiwyd pwysigrwydd derbyn cwynion, gan y buasai fwy o broblem os na fuasai dim cwyn yn cael ei dderbyn. Mynegwyd mai’r prif broblem yw diffyg staff - nid yn unig gofalwyr ond doctoriaid, staff gwasanaeth ambiwlans - gofynnwyd i Dyfed Edwards ynghyd a’r Gwasanaeth Ambiwlans i ddod i gael cyfarfod gyda’r Bwrdd Iechyd er mwyn cael trafodaeth bellach. Nodwyd ei barn fod Ysbyty Gwynedd bellach yn gartref gofal gyda’r nifer o bobl hyn sydd yn methu gadael, a bod wir angen mwy o wlâu gofal. Mynegwyd gobeithion gyda Phlaid Cymru yn arwain yn y Senedd y bydd modd symud ymlaen gyda safle Penrhos. Ymatebwyd drwy nodi fod wir angen edrych yn ehangach ac am drafod i weld os oes modd trefnu’r cyfarfod yma gyda’r Bwrdd Iechyd a Gwasanaeth Ambiwlans. Tynnwyd sylw at safle Penrhos gan nodi fod gwedd 1 wedi mynd yn dda, ac yn gynt na’r disgwyl gyda thenantiaid yn gallu symud i mewn ymhen ychydig wythnosau, ychwanegwyd y bydd tai gofal ychwanegol ar gael yn fuan a'u bod yn y broses o ymgyhgori ar hyn o bryd ar gyfer y Cynllun Busnes Llawn ar gyfer y Cartref Gofal, gyda chais cynllunio llawn yn cael ei gyflwyno mis Mawrth nesaf.

Diolchwyd am yr adroddiad gan nodi ei deimlad fod y cywair sydd wedi ei ddefnyddio ar gyfer y cyflwyniad, y fideo a strwythur yr adroddiad ddim yn addas, a'i fod yn rhy agos i adloniant. Er hyn, eglurwyd mai beirniadaeth gosmetig oedd yma ac nid am y cynnwys. Gofynnwyd cwestiwn pellach o ran Teleofal gan holi os oes gwaith wedi ei wneud i fynd i’r afael a diffyg rhwydwaith ffon symudol a fuasai o bosib yn cyd-fynd a’r broblem digideiddio llinellau ffon o ran teleofal. Diolchwyd am y sylwadau gan esbonio fod yr adroddiad ar gyfer pawb ac nid ar

gyfer Cynghorwyr yn unig, ac yn dilyn ymgynghoriad yn 2024 wedi addasu er mwyn sicrhau fod pawb yn gallu ei ddeall. O ran ymateb i'r cwestiwn am Teleofal, nododd nad oedd yn hollol siŵr o'r ateb ac y byddai yn dod yn ôl ato ac ymateb pellach.

Diolchwyd am yr adroddiad gan amlygu yn glir ymateb y Cyngor i'r Adroddiad Cyfiawnder drwy ein Dewrder ynghyd a gwaith y Cynllun Ymateb. Holwyd sut y gellir sicrhau nad yw ateb i fethiannau yn ddibynnol ar strwythurau dros dro a pryd fydd y Cyngor yn cymryd perchnogaeth, beth sydd wedi newid yn niwylliant ac atebolrwydd y Cyngor i sicrhau na fydd angen ymyrraeth allanol unwaith eto ac oes mesurau i faintioli hyn, ac os oes agweddau pwysig o waith yr adran wedi llithro o sgil yr Adroddiad Cyfiawnder Drwy Ein Dewrder. Ymatebwyd drwy nodi fod perchnogaeth ynghyd â'r Bwrdd Ymateb yn camu yn ôl wedi bod yn bwnc trafod yn ddiweddar. Eglurwyd y bydd cyfarfod nesaf y bwrdd ymateb yn edrych yn benodol ar hyn, ond o ran strwythurau mae disgwyliadau i gyrraedd safonau penodol cyn ystyried i'r Bwrdd Ymateb gamu yn ôl. Pwysleisiwyd fod balans angen ei gael o symud ymlaen ein hunain ac i gadw diogelwch o gael yr her allanol. O ran atebolrwydd a maintioli'r diwylliant ac atebolrwydd, mynegwyd fod y rhain i'w gweld yn y papurau'r Bwrdd Ymateb a'i fod yn hapus i fynd drwyddo ymhellach gyda'r aelod. Mynegwyd fod agweddau pwysig wedi llithro wrth gwrs, ond fod diogelu plant ac oedolion yn hanfodol.

Amlygwyd fod tudalen yn amlygu'r heriau dros y flwyddyn wedi nodi pwysau ariannol, swyddi gwag a recriwtio fel prif heriau. Gofynnwyd pa mor hyderus yw'r gwasanaeth o allu recriwtio a chadw staff am y pum mlynedd nesaf. Ymatebwyd drwy nodi fod adroddiad Llechan Lan yn amlygu'r angen am filiodd mwy o staff os pethau ddim yn newid, gyda niferoedd mewn oedran gwaith yn lleihau. Pwysleisiwyd fod llawer o waith yn mynd yn ei flaen er mwyn trio cael pobl ifanc i aros yng Ngwynedd ac i ddenu pobl ifanc i'r sir.

Mynegwyd fod yr adroddiad hwn fel adroddiad perfformiad ddim yn mesur perfformiad yn llawn ac fod yr ystadegu yn arwynebol ac nad yw'n dangos yn glir sut mae gwella, sy'n greiddiol i adroddiad perfformiad. Nodwyd fod tudalen sy'n adrodd ar gynnydd y llynedd heb ddim data dim ond goleuadau traffic ond nad yw'n rhoi'r llun yn llawn o ran targedau. Ategwyd fod defnydd o gartwnau efallai yn ei wneud yn rh sym, ac fod awyrgylch y cyflwyniad, yn benodol y fideo, yn rhywbeth na fuasai i'w weld yn Senedd Cymru ac nodwyd yr angen i fod yn amlygu fod y Cyngor Llaw yn gweidyddiaeth lefel uchel, ac fod angen mwy o amser i herio a llai o amser i gathod. Ymatebwyd gan nodi mai dim mesur perfformiad mae'r adroddiad hwn ond rôl satudol i ddarparu gwybodaeth i'r Llywodraeth ac i'r cyhoedd am y gwaith sy'n cael wneud. Croesawyd yr awydd i graffu y gwaith ymhellach ac fod mwy i'r sefyllfa nac yr adroddiad hwn.

Diolchwyd am yr adroddiad yn amlygu'r gwaith eang sydd yn cael ei wneud yn wyneb heriau mawr. Anghytunwyd a'r aelod blaenorol gan nodi fod y lluniau 'ar cartwnau yn rhoi darlun mwy clir o straeon unigolion. Pwysleisiwyd fod y ddwy flynedd diwethaf wedi bod yn anodd ond fod datblygiadau gwych wedi'i gwneud a mynegwyd ei bod yn edrych ymlaen at gyd-weithio dros y flwyddyn i ddod er mwyn amlygu a thanlinellu' gwaith sy'n caei ei wneud i gefnogi plant a phobl ifanc.

Nodwyd balchder o roi amser heddiw i drafod yr eitem gan ei fod yn dangos diddordeb yn y maes gofal. Pwysleisiwyd fod modd cysylltu â'r Aelodau Cabinet neu'r Cyfarwyddwr drwy gydol y flwyddyn. Anghytunwyd gyda'r sylwadau am edrychiad yr adroddiad gan fod digon o adroddiadau academaidd yn cael ei greu a bod yr un yma ar gael i bawb. Pwysleisiwyd yn ogystal mai adroddiad blynyddol ac nid perfformiad sydd yn cael ei gyflwyno yma - ond fod croeso i unigolyn ddod i'r Cyfarfodydd Herio Perfformiad er mwyn gweld y data a'r craffu sy'n cael ei wneud. Yn bwysicach na dim, mynegwyd, fod yr adroddiad yn un gonest sydd ddim yn cuddio methiannau a diolchwyd am gyfraniad y Cyfarwyddwr Corfforaethol am ei waith i'r Cyngor a thu hwnt yn rhanbarthol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**10. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PENNAETH GWASANAETH DEMOCRATIAETH**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth gan nodi ei bod yn ofynnol i gyflwyno adroddiad sy'n amlinellu'r gwaith sydd wedi ei wneud dros y flwyddyn ddiwethaf. Diolchwyd i'r Cyn-gadeirydd am ei gwaith a nodwyd llongyfarchiadau i'r Cyng. Dewi Owen em ei ethol yn Gadeirydd. Mynegwyd diolch i'r Pwyllgor Gwasanaeth Democratiaeth am eu mewnbwn ac i'r tîm am eu proffesiynoldeb drwy gydol y flwyddyn.

Amlygwyd uchafbwyntiau'r flwyddyn gan gyfeirio at y gwaith o ddechrau paratoi at Etholiad 2027 yngyd â cynlluniau i wella ddarpariaeth ddigidol yn Siambrau. Tynnwyd sylw at yr wythfed maes caidd a ychwanegwyd y maes hyfforddiant aelodau a gofynwyd i aelodau gwblhau'r hyfforddiant sydd ar gael. Aethpwyd ati i nodi blaenoriaethau eleni sydd yn barhad o waith y llynedd gyda'r Etholiad ar y gweill.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Tynnwyd sylw at y maesydd hyfforddiant craidd gan amlygu fod y niferoedd a adroddwyd sydd wedi cwblhau hyfforddiant yn parhau i fod yn isel gan amlygu ffigyrau megis 3 aelod heb gwblhau dim un o'r wyth maes. Amlygwyd pwysigrwydd yr hyfforddiant a'r ffaith eu bod ar gael ar lein unrhyw amser.

Holwyd os oes trafodaeth am gynghorwyr yn wynebu isetholiad os yn newid grŵp gwleidyddol yn ystod tymor democrataidd. Ymatebwyd drwy nodi nad oes camau ar lefel Llywodraeth Leol i ddod a gofyn o'r fath i mewn.

Gofynwyd ble mae'r wybodaeth ar gael am hyfforddiant aelodau, eglurwyd ei fod yn wybodaeth gyhoeddus ar y wefan ac ar gael ar Hunanwasanaeth Aelodau, ond gofynwyd i Gynghorwyd gysylltu os angen cymorth.

Diolch am yr holl hyfforddiant sydd ar gael a bod budd mawr o'i mynychu. Diolchwyd i Cara y cyn Swyddog Hyfforddiant Aelodau am ei gwaith dros y blynyddoedd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 11. DATGANIAD CYNGOR GWYNEDD YNGHYLCH HYBU AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol gan nodi fod y Cyngor wedi mabwysiadu Datganiad Amrywiaeth yn ôl yn Hydref 2021 yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2021. Esboniwyd fod y datganiad yn amlygu ymrwymiad y Cyngor i annog ac i hyrwyddo mwy o amrywiaeth cyn etholiad Llywodraeth Leol 2027.

Mynegwyd gydag Etholiad Lleol nesaf ar y gweill ei bod yn amserol i adolygu'r datganiad. Amlygwyd nad oedd yn ofyniad statudol ond ei bod yn credu bod yr Aelodau yn awyddus i sicrhau cynrychiolaeth deg o gymdeithas, ac i annog unigolion o bob cefndir i sefyll i fod yn Gynghorydd.

Nodwyd nad oes newid sylweddol i'r datganiad ers 2021 dim ond ychydig o ddiweddariadau. Tynnwyd sylw at y rhaglen waith fydd yn cyd-fynd a'r datganiad a oedd yn amlygu'r camau a fydd yn cael ei gwneud gan y Tîm Democratiaeth a'r Tîm Etholiadau.

Amlygwyd fod y datganiad wedi derbyn cefnogaeth gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth a gyfarfu pythefnos yn ôl.

Rhoddwyd cyfle i aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Diolchwyd am yr adroddiad, a chroesawyd y datganiad i gael Cynghorwyr sydd yn adlewyrchu'r cymunedau sy'n cael ei gwasanaethu ac i ddileu rhwystrau sy'n sicrhau fod pobl o bobl cefndir ac oed yn rhan o wleidyddiaeth leol.
Mynegwyd cefnogaeth gan amlygu ei bod yn hawdd dweud fod angen mwy o amrywiaeth ond bod rôl i'r Grwpiau Gwleidyddol i fod yn hybu ac annog yr amrywiaeth yma. Nodwyd y buasai trefn system pleidlais sengl drosglwyddadwy yn ei gwneud yn haws. Ymatebwyd drwy nodi fod gweithio gyda'r Arweinyddion Gwleidyddol yn rhan o'r rhaglen waith, ac mai drwy anogaeth Grŵp Plaid Cymru i gael merched ifanc i mewn i wleidyddiaeth y daeth yr Aelod Cabinet yn Gynghorydd.

Gofynnwyd pa rwystrau sydd wedi ei adnabod fel y prif rai i atal pobl rhag sefyll. Croesawyd sgwrs tu hwnt i'r cyfarfod a'r aelod er mwyn rhoi ystyriaeth deg i'r mater.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu Datganiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth ar ei newydd wedd ynghyd a'r rhaglen waith i gefnogi'r datganiad.**

## 12. POLISI ADRODD CYFRINACHOL ("CANU'R GLOCH) AELODAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Llio Elenid Owen, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol.

Mynegwyd yn ôl ym mis Ionawr bu i'r Cabinet fabwysiadu Polisi Canu'r Gloch ddiwygiedig i Staff Cyngor Gwynedd a oedd yn gam pwysig i gryfhau trefniadau'r Cyngor mewn ymateb i adroddiad Cyfiawnder Drwy ein Dewrder. Eglurwyd fod galw am bolisi a fyddai'n caniatáu i aelodau etholedig a chyfetholedig gal llwybr i ddod â phryderon am gamymddwyn difrifol i'r amlwg.

Esboniwyd fod angen paratoi Polisi a fyddai'n addas a priodol ar gyfer aelodau etholedig, gan fod trefn staff ynghlwm a deddfwriaeth cyflogaeth gyda gwarchodaeth gyfreithiol o fewn y Ddeddf Datgelu er Budd y Cyhoedd 1998. Nodwyd fod y polisi hwn yn cynnig arweiniad a llwybr clir i aelodau ar sut i godi pryderon mewn gofod diogel, ac mae'n cydfodoli gyda threfniadau eraill ar gyfer mathau penodol o bryderon fel y Cod Ymddygiad. Ategwyd mai beth sydd gerbron yw cyfundrefn lle gall aelodau ddod a materion i'r amlwg, derbyn arweiniad ac adborth ar y camau ymateb.

Amlygwyd y camau wrth lunio'r Polisi a oedd yn cynnwys mewnbwn gan y Grŵp Tasg Ymholiadau Aelodau ynghyd ag ymgysylltu a pob Aelod. Tynnwyd sylw am ymgynghoriadau gyda'r Pwyllgor Safonau, Pwyllgor Addysg ac Economi ynghyd a sefydliad Protect sef corff elusennol sy'n arbennig mewn materion canu'r gloch. Pwysleisiwyd fod addasiadau a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Craffu wedi eu hymgorffori yn y Polisi.

Rhoddwyd cyfle i aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Nodwyd cefnogaeth i'r polisi a diolchwyd i'r Aelod Cabinet a'r swyddogion am eu gwaith. Mynegwyd ei fod yn rhoi elfen o warchodaeth i aelodau ac yn dangos ymrwymiad i ddiwylliant o onestrwydd ac atebolrwydd ynghyd a hyder fod pryderon yn cael ei drin yn briodol ac yn gyfrinachol. Gofynnwyd sut oes modd i aelodau wybod pryd y dylid defnyddio'r polisi hwn yn hytrach 'na gweithdrefnau eraill. Ymatebwyd drwy nodi mai hanfod y polisi yw adrodd ar unrhyw bryder ac y bydd y Swyddog Monitro yn adnabod y llwybr yn dilyn ei dderbyn.

Holwyd sut mae'r polisi yn rhoi cytbwysedd rhwng diogelu'r sawl sy'n codi'r pryder ac i atal y broses rhag cael ei ddefnyddio mewn anghydfodau gwleidyddol. Mynegwyd fod pwrpas difrifol i'r polisi hwn a bod disgwyliad i'r polisi gael ei ddefnyddio ar gyfer ymddygiad difrifol, gan nad oes modd i swyddogion ymwneud a materion gwleidyddol.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu Polisi Adrodd Cyfrinachol ("Canu'r Gloch") Aelodau i'w osod yn y cyfansoddiad**

## 13. NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD ADRAN 22 – POLISI CANU'R GLOCH - STAFF

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro gan nodi ei bod yn adroddiad trefniadaethol. Eglurwyd ym mis Ebrill fod newid wedi bod yn Neddfwriaeth Cyflogaeth ble ychwanegwyd at y categorïau ymddygiad annerbyniol i gynnwys aflonyddu rhywiol o fewn diffiniad o ddatgeliadau gwarchodedig. Eglurwyd fod y Swyddog Monitro yn unol â'i hawliau ddiwygio'r Cyfansoddiad yn unol â hyn, o ganlyniad nodwyd ei fod yn adroddiad ffurfiol i nodi'r newid.

Rhoddwyd cyfle i aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Holwyd os oes modd newid y gair "whistle blowing" yn Saesneg, gan ei fod yn ffordd afiach o godi pryderon. Eglurwyd fod y term yn un cydnabyddedig sydd yn cael ei ddefnyddio yn gyson ar draws bob sector.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu Polisi Adrodd Cyfrinachol ("Canu'r Gloch") Aelodau i'w osod yn y cyfansoddiad**

## 14. TROTHWYON CAFFAEL AC ADDASIADAU I'R RHEOLIADAU GWEITHDREFN CONTRACTAU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Llio Elenid Owen, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol.

Nodwyd ei bod yn amserol adolygu trothwyon tendro a dyfynbrisiau caffael y Cyngor yn dilyn newid deddfwriaeth cytundebu a chaffael sylweddol ynghyd a newid Rheolau Gweithdrefn Contractau mewnol y Cyngor yn dilyn penderfyniad y Cyngor hwn fis Mawrth y llynedd. Eglurwyd fod y trothwyon presennol wedi bod yn eu lle ers 1996, a chynnydd mawr wedi bod mewn chwyddiant a phrisiau dros y blynyddoedd.

Amlygwyd fod man newidiadau pellach wedi'i gyflwyno er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn cydymffurfio a'r Ddeddf ynghyd a thacluso trefniadau mewnol a rhoi eglurder o'r trefniadau priodol. Nodwyd mai'r argymhelliad yw dyblu'r trothwyon. Eglurwyd wrth bennu'r trothwyon fod angen pwyso a mesur rhwng rhoi cyfleoedd agored, hybu cystadleuaeth a chyfranogiad busnesau lleol. Pwysleisiwyd fod yr argymhelliad heddiw yn cefnogi cadw'r budd yn lleol, gan fod trothwyon uwch yn gyfle i gefnogi busnesau lleol wrth roi hyblygrwydd yn y gweithdrefnau i wahodd cwmnïau lleol i gyflwyno dyfynbrisiau.

Mynegwyd fod yr adroddiad wedi'i gefnogi gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac yn ei argymell i'r Cyngor Llawn.

Rhoddwyd cyfle i aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Mynegwyd nad oes unrhyw broblem gyda chynyddu'r trothwyon gan ei fod yn rhoi gwell galli i ariannu prosiectau gan gwmnïau lleol, ond tynnwyd sylw at drothwyon Cyngor Môn sydd llawer yn uwch.

Gofynnwyd am y gyfran llysiau a cig o Gymru mae'r Cyngor yn ei brynu. Ymatebwyd drwy nodi y bydd ymatebiad yn cael ei roi gan yr Adran Addysg.

Holwyd pa ystyriaeth sydd wedi ei roi i ddefnyddio trothwy uwch i gadw'r gwaith yn lleol ac i ba raddau mae modd i ddarnau bychan o waith i'r un cwmni yn cael ei gynnal. Ymatebwyd drwy nodi ei fod yn falanas o gael cyfundrefn ymarferol o ran gwerthoedd ac ar y llaw arall sicrhau priodoldeb o dan reoliadau.

**PENDERFYNWYD**

1. **Cynyddu'r trothwyon caffael fel a ganlyn:**
    - **Caffaeliadau hyd at £10,000 dyfynbris sengl**

- **Caffaeliadau rhwng £10,000 a £100,000 gofyn am dri dyfynbris**
- **Caffaeliadau o dros £100,000 cais agored am ddyfynbrisiau neu dendrau**

**2. Gwneud man newidiadau i Reolau Gweithdrefn Gontract y Cyngor fel y nodir yn Atodiad 1.**

## 15. RHYBUDD O GYNNIG

Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig gan y Cynghorydd Huw Rowlands o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i heiliwyd.

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w chynnig, gan nodi:-

- Deillio o rwystredigaeth methiannau bwrdd dros nifer o flynyddoedd.
- Mesurau arbennig dros 11 mlynedd a nad oes un sefydliad gwladol yn holl hanes y Bwrdd Iechyd wedi bod mewn mesurau arbennig am gymaint o amser.
- Amlygwyd fod Archwilio wedi amlygu wythnos diwethaf nad oedd y Bwrdd wedi dangos yn glir sut gafod buddsoddiad gwerth £461miliwn wedi ei wario nac ei werth o ganlyniad i ddiffyg tystiolaeth ddibynadwy.
- Pwysleisiwyd fod hyn yn dangos nad yw taflu mwy o arian yn llwyddiannus.
- Nodwyd fod pob ymdrech i wella wedi methu.
- Wrth edrych ar Ysbyty Gwynedd - fod y diffygion yn glir heb fynd mewn i adeiladau drwy ddim lleoliadau parcio, biniau llawn a bod esgeulustod o'r math yma am arian am esgeulustod mwy.
- Mynegwyd balchder o weld Llywodraeth Cymru yn rhoi un cynnig olaf i'r Bwrdd yr wythnos yma.

Mynegwyd cefnogaeth frwd i'r cynnig gan aelodau gan nodi:

- Hyder yn y Llywodraeth Cymru yn gweld pwysigrwydd i symud ymlaen at y mater.
- Tynnwyd sylw at yr 16 gwely gwag yn Nhywyn.
- Pwysleisiwyd fod pawb yn ymwybodol o'r straeon hunllefus a bod y Llywodraeth wedi ei adael yn rhy hir i wneud rhywbeth am y mater.
- Diolchwyd i staff rheng flaen am eu holl waith a'u bod yn gwneud gwaith gwych mewn sefyllfa mor anodd ac mai problem strwythurol yw hon.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-**

**Gofynnir i Gyngor Gwynedd gysylltu â Llywodraeth Cymru er mwyn:**

1. **Mynegi pryder fod Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn ddarostyngedig i fesurau arbennig ers 11 mlynedd.**
2. **Holi pa gamau a pha ymdrechion fydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd er mwyn gwella'r ddarpariaeth iechyd yng Ngogledd Cymru i bobl Gwynedd.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30yp a daeth i ben am 5:20yp.

______________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Cyngor Llawn |
| **DYDDIAD** | 24 Medi 2026 |
| **PWNC** | Ardoll Ymwelwyr |
| **PWRPAS** | Diweddaru ar yr ymgynghoriad ar Gynnig Ardoll Ymwelwyr Gwynedd |
| **AWDUR** | Roland Evans<br>Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned |
| **AELOD CABINET** | Cyng. R.Medwyn Hughes |

**Y Penderfyniad a Geisir**

- Derbyn yr adroddiad;
- Cytuno i dderbyn adroddiad cyflawn i benderfynu a ddylid cyflwyno Ardoll Ymwelwyr yng Ngwynedd a’i peidio unwaith y bydd y gwaith o ddadansoddi, ystyried ac ymateb i gynnwys yr Ymgynghoriad wedi ei gwblhau’n llawn a phriodol.

**Cefndir**

1. Yn dilyn penderfyniad y Cyngor Llawn ar 14 Mai 2026, cytunwyd i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y posibilrwydd o gyflwyno Ardoll Ymwelwyr yng Ngwynedd.
2. Bwriad yr ymgynghoriad oedd casglu barn trigolion, busnesau, ymwelwyr a rhanddeiliaid cyn gwneud penderfyniad pellach.
3. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 20 Mai a 26 Gorffennaf 2026. Ymestynnwyd y cyfnod ymgynghori o 11 diwrnod yn dilyn sylwadau a chais a wnaethpwyd gan Bartneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035 yn ystod eu cyfarfod arbennig i drafod yr Ardoll ar 12 Mehefin 2026.

**Beth yw'r Ardoll Ymwelwyr?**

4. Byddai'r ardoll yn daliad dyddiol gan bobl sy'n aros dros nos mewn llety ymwelwyr, megis:
    - Gwestai
    - Tai llety (B&B)
    - Llety hunanarlwyo
    - Carafannau gwyliau
    - Meysydd gwersylla
    - Hosteli a llety a rennir

5. Bwriad yr ardoll yw sicrhau bod ymwelwyr yn gwneud cyfraniad uniongyrchol at gynnal a gwella'r gwasanaethau a'r asedau sy'n cefnogi'r economi ymwelwyr. Byddai unrhyw incwm yn cael ei ail-fuddsoddi'n lleol i gefnogi cymunedau, diwylliant a'r Gymraeg, yr amgylchedd, cyfleusterau ac isadeiledd sy'n cael eu defnyddio gan ymwelwyr a thrigolion fel ei gilydd.

**Cyfraddau Arfaethedig**

| Math o lety | Cyfradd fesul person y noson |
|---|---|
| Hosteli, ystafelloedd a rennir a lleiniau pebyll | 75c + TAW (£0.90 |
| Y rhan fwyaf o fathau eraill o lety<br>(gwestai, B&B, hunanarlwyo, carafannau ayb.) | £1.30 + TAW (£1.56) |

**Eithriadau**

6. Ni fyddai'r ardoll yn daladwy os:
    - Mae'r ymwelydd o dan 18 oed ac yn aros mewn lleiniau pebyll neu lety a rennir.
    - Mae'r arhosiad yn para mwy na 31 noson o fewn un archeb.
    - Mae'r llety yn dai brys neu dros dro a drefnir gan awdurdod lleol.

**Pwrpas yr Ymgynghoriad**

7. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ynghylch:
    - Effaith economaidd bosibl yr ardoll ar fusnesau twristiaeth.
    - Effaith ar ymwelwyr a phenderfyniadau teithio.
    - Y defnydd mwyaf priodol o unrhyw incwm a gesglir.
    - Effaith ar gymunedau lleol, yr amgylchedd a'r Gymraeg.
    - Sut y gellid gweithredu'r ardoll yn effeithiol yng Ngwynedd.
    - Barn ar gefnogaeth i gyflwyno Cynnig Ardoll Ymwelwyr Gwynedd.
8. Cafodd nifer o asesiadau effaith eu cyhoeddi fel rhan o'r ymgynghoriad, gan gynnwys asesiadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, cydraddoldeb a iaith.

**Dulliau ymgynghori**

9. Ar gyfer ymarferion ymgynghori a gynhelir gan gyrff cyhoeddus, yr '*Egwyddorion Gunning*' yw'r safonau cyfreithiol allweddol a ddefnyddir gan y llysoedd i asesu a yw ymgynghoriad wedi bod yn deg ac yn gyfreithlon.
10. I gyfarch yr egwyddorion mae'n rhaid ymgynghori â rhanddeiliaid tra bo cynigion yn dal i fod ar gam datblygol; rhaid darparu gwybodaeth ddigonol er mwyn galluogi ymatebion gwybodus a chaniatáu amser digonol ar gyfer ystyried a chyflwyno sylwadau. Bydd angen ystyried pob ymateb yn gydwybodol cyn cwblhau'r argymhellion a symud i wneud penderfyniad terfynol.
11. Defnyddiwyd cyfuniad o sianeli digidol, cyfryngau cymdeithasol, digwyddiadau cyhoeddus, sesiynau galw heibio a rhwydweithiau partneriaeth i gyrraedd busnesau, trigolion a rhanddeiliaid ledled y sir yn ogystal â ymwelwyr. Dosbarthwyd posteri, cardiau busnes, llofr-nodau yn ogystal i annog ymateb trwy'r cod QR a hynny o fewn i 13 Ardal Adfywio Gwynedd.
12. Yn ystod y cyfnod ymgynghori gwelwyd:
    - 15,555 ymweliad â'r dudalen wybodaeth ymgynghoriad Cyngor Gwynedd
    - 4 cyfarfod cyhoeddus (3 yn Ardaloedd Gwynedd ac 1 arlein)
    - 6 sesiwn galw heibio (2 ymhob ardal o Wynedd)
    - 76 o fynychwyr
    - 15 o gyrff statudol a rhanddeiliaid wedi cysylltu â hwy
    - Cynghorau Cymuned Gwynedd i gyd wedi eu hysbysu
    - Aelodau Cyngor Gwynedd wedi eu briffio
    - Anogaeth i gwblhau'r holiadur trwy rwydwaith Llyfrgelloedd, Canolfannau Byw'n Iach a rhwydweithiau eraill

**Yr ymateb**

13. Roedd yr ymateb a dderbyniwyd yn y sesiynau cyhoeddus yn danbaid, heriol a gwrthwynebus. Roedd rhain yn gyfarfodydd anodd. Eu bwriad oedd codi ymwybyddiaeth am yr ymgynghoriad ac annog ymateb – ond wrth reswm roedd llawer yn awyddus i leisio barn.
14. Darparwyd copïau o'r holiadur yn Llyfrgelloedd Gwynedd, Siop Gwynedd yn ogystal â chyfle i wneud cais am gopi papur. Trosglwyddwyd yr ymatebion papur i'r holiadur arlein fel un ffynhonnell o gasglu'r ymateb i'r ymgynghoriad.
15. Mae'r ymgyrch gan y sector (yn cynnwys llythyru cwsmeriaid i annog ymateb, creu tudalen facebook a llythyru busnesau lleol i annog ymateb yn erbyn yr Ardoll) wedi sicrhau bod nifer yr ymwelwyr a ymatebodd wedi cynyddu'n sylweddol yn y 2 wythnos olaf o'r ymgynghoriad ac mae'r rhain yn dylanwadu ar y canlyniadau terfynol yn sylweddol.
16. Canran fechan iawn (1% gwefan Gymraeg a 2% gwefan Saesneg) oedd wedi clicio i ddarllen Cynnig Ardoll Ymwelwyr Gwynedd ac i gael gwybodaeth gynhwysfawr ar y Cynnig er mwyn cynorthwyo eu hymateb.
17. Fel rhan o'r holiadur ymateb i'r ymgynghoriad, roedd modd i ymatebwyr ddewis pa gategori oedd yn eu disgrifio orau fel ymatebydd.
18. Roedd modd iddynt ddewis mwy nac un categori ac felly rhaid cofio y gallai rhai ymatebwyr fod yn gyfuniad o drigolion, busnesau, ymwelwyr ac yn fudiadau er enghraifft. Nid yw'n hawdd gwahanu pobl i gategorïau unigol.
19. Derbyniwyd 6,856 o ymatebion i'r ymgynghoriad. O'r dadansoddiad ffigyrau cychwynnol, roedd 48.7% o drigolion Gwynedd yn cefnogi'r Cynnig gyda 43.5% yn gwrthwynebu, 14.7% o fusnesau'n cefnogi a 79.5% yn gwrthwynebu gyda 10.7% o ymwelwyr yn cefnogi a 79.9% yn gwrthwynebu. O ystyried y cyfanswm ymateb gan gynnwys ymwelwyr, trigolion a busnesau, roedd 22.7% yn cefnogi'r Cynnig Ardoll a 68.5% yn gwrthwynebu'r Cynnig Ardoll.
20. Dylid cofio nad ymgynghoriad 'o blaid' neu 'yn erbyn' Cynnig Ardoll Ymwelwyr Gwynedd oedd dan sylw yma, ond ymgynghoriad i ganfod effaith bosib cyflwyno Ardoll Ymwelwyr yn y Sir ac i gynorthwyo wrth ddod i benderfyniad.
21. Bydd yr adroddiadau crynhoi a chloriannu'r ymgynghoriad yn darparu gwybodaeth manwl i ni ar yr ymatebion ar sail yr holl garfannau, y blaenoriaethau, yr ardaloedd adfywio yn ogystal â darparu argymhellion posib wrth symud ymlaen.
22. Mae nifer yr ymatebion dderbyniwyd yng Ngwynedd yn sylweddol, ac yn uwch na'r hyn ragwelwyd ar sail ymgynghoriadau blaenorol ac o'i gymharu â 2,000 ym Môn a 1,300 yng Nghonwy.

**Prif negeseuon yn deillio o'r ymgynghoriad**

23. Yn ogystal â'r nifer sylweddol uwch o ymatebion na'r hyn sydd wedi ei weld mewn ardaloedd eraill, mae'r amrediad o feysydd allweddol sy'n codi yn yr ymatebion yn ehangach na'r hyn a ragwelwyd.
24. Mae rhai o'r prif thema a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad yn cynnwys gwastraff a glendid; ffyrdd, parcio, trafnidiaeth; economi a swyddi; llywodraethu, data , monitro; yr amgylchedd a mannau cyhoeddus; amseriad ac effaith cronnus polisïau ehangach ar y sector twristiaeth; cyfleon cydweithio ehangach; effaith ar rai nodweddion cydraddoldeb; y Gymraeg a diwylliant.
25. Rydym wedi derbyn cyngor cyfreithiol eglur na ellir pwyso ymlaen i wneud penderfyniad ar yr ardoll ym mis Medi 2026 fel y bwriadwyd yn wreiddiol gan nad yw

wedi bod yn bosib dadansoddi, trin a thrafod yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad mewn amser. Ar hyn o bryd, nid yw yr holl wybodaeth, ffactorau a ffeithiau llawn sydd wedi eu codi fel ymateb i'r ymgynghoriad wedi ei baratoi ac mewn ffurf i'w gyflwyno i'r Cyngor ac oherwydd hyn ni all y Cyngor ystyried y mater yn llawn cyn gwneud penderfyniad.

26. Yn unol â egwyddorion ymgynghori 'Gunning' mae angen ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn 'gydwybodol' trwy sicrhau ein bod yn asesu canlyniadau'r ymgynghoriad yn llawn, diweddaru'r asesiadau effaith a llunio ymateb i'r prif feysydd sy'n codi. Ymhellach mae angen gwneud gwaith ymchwilio rhesymol pan yn dadansoddi y wybodaeth. Heb sicrhau ystyriaethau cydwybodol ac ymchwil rhesymol ni fydd y dyletswydd o gynnal ymgynghoriad ac adrodd ar ei ganlyniadau yn un teg a chyflawn.
27. Efallai nad oes ymateb na mesurau perthnasol i rai materion a godwyd - ond bydd angen eu nodi fel effaith fel bod y Cyngor yn llwyr ddeall oblygiadau ac effaith yr Ardoll wrth ddod i benderfyniad.
28. Bydd angen cloriannu'r wybodaeth sydd wedi ei gasglu ac yna ymdrin a diweddaru'r asesiadau effaith yr Ardoll a fod y Cynnig ei hun wedi ei ddiwygio os yn berthnasol.

**Camau Nesaf ac amserlen**

29. Yn wreiddiol, y bwriad oedd cyflwyno adroddiad am benderfyniad i'r Cyngor Llawn ar 24 Medi 2026.
30. Y prif reswm dros gyflwyno adroddiad ar 24 Medi 2026 oedd er mwyn rhoi rhybudd 12 mis i Awdurdod Cyllid Cymru o'n bwriad er mwyn cychwyn codi'r Ardoll o 1 Hydref 2027, pe byddai penderfyniad i wneud hynny.
31. Mae 2 gyfle mewn unrhyw flwyddyn i gyflwyno rhybudd o fwriad codi Ardoll Ymwelwyr i ACC – sef cyn 1 Ebrill neu 1 Hydref.
32. O ystyried yr ymestyniad o 11 diwrnod a roddwyd i'r ymgynghoriad ar gais Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035, y nifer uchel o ymatebion sydd wedi eu derbyn a'r amrediad o feysydd sydd wedi codi; nid yw'r Cyngor mewn sefyllfa i wneud penderfyniad ar Gynnig Ardoll Ymwelwyr Gwynedd ar hyn o bryd.
33. Awgrymir cyflwyno adroddiad i gyfarfod y Cyngor Llawn yn gofyn i'r Cyngor benderfynu a ddylid cyflwyno Ardoll Ymwelwyr yng Ngwynedd ai peidio, wedi i'r gwaith o ddadansoddi, ystyried ac ymateb i gynnwys yr ymgynghoriad gael ei gwblhau'n llawn ac yn briodol.
34. O ganlyniad i'r oedi yn yr amserlen, ni fydd yn bosibl ar hyn o bryd pennu pryd y gellir cyflwyno'r rhybudd perthnasol i Awdurdod Cyllid Cymru. Bydd hyn yn ddibynnol ar pryd y cyflwynir yr adroddiad i'r Cyngor Llawn a phenderfyniad y Cyngor ynghylch a ddylid cyflwyno Ardoll Ymwelwyr yng Ngwynedd ai peidio.

**Barn Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro**

*"Mae'r adroddiad sydd yn adlewyrchu cyngor cyfreithiol arbenigol yn darparu arweiniad eglur na fyddai yn briodol symud ymlaen i ddod i benderfyniad ar fabwysiadu yr ardoll ym Medi 2026 am y rhesymau a amlygir. Esbonnir yr amgylchiadau sydd wedi arwain at y canfyddiad yma yn yr adroddiad. Yn benodol tanlinellir y dyletswyddau cyfreithiol sydd ynglŷn a chynnal ymgynghoriad ac yn benodol felly sut i ymdrin a'r ymatebion a'r safbwyntiau a ddaw i law. Yn ogystal mae paratoi asesiadau ardrawiad penodol yn rhan greiddiol o'r broses penderfynu ac fel y nodir mae'r ymatebion yn cyfrannu at y dealltwriaeth a diweddariad yr asesiadau yma wrth arwain at baratoi yr adroddiad terfynol a dod i benderfyniad".*

**Y Pennaeth Cyllid**

*"Rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol. Mae'n hanfodol fod canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu hasesu'n briodol".*

**Gwybodaeth cefndir**

Adroddiad i'r Cyngor Llawn 14 Mai 2026

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Cyngor Llawn |
| **DYDDIAD** | 24 Medi 2026 |
| **TEITL** | Adroddiad Blynyddol y Panel Strategol Diogelu 2025/26 |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Dewi Jones |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | Dylan Owen, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |

## 1. Cefndir / Cyflwyniad

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu diweddariad ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni gan y Panel Strategol Diogelu yn ystod 2025/26. Mae hefyd yn cyflwyno er gwybodaeth, adolygiad o'r polisi diogelu a wnaethpwyd yn ystod 2025/2026 i holl aelodau'r cyngor.

1.2. Prif flaenoriaeth y Cyngor yw sicrhau bod plant ac oedolion mewn perygl yn cael eu diogelu rhag cam-drin, esgeulustod, radicaleiddio, caethwasiaeth, cam-drin domestig a cham-fanteisio. Mae gan **bawb** yng Nghyngor Gwynedd gyfrifoldeb am greu amgylchedd sy'n sicrhau hyn, gan arwain at blentyn neu oedolyn sy'n llai tebygol o gael ei gam-drin.

1.3. Y Panel Strategol Diogelu sy'n sicrhau bod gweithdrefnau diogelu addas a phriodol yn eu lle ac mae'n bwysig fod holl aelodau yn gallu bodloni eu hunain bod y Panel wedi ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen yn drylwyr a chydwybodol. Credir fod yr Adroddiad Blynyddol (**Atodiad 1**) yn crynhoi gwaith y Panel ar gyfer 2025/26 yn gywir a theg, gan hefyd gynnwys cyfeiriadau at sylwadau gan archwilwyr allanol ar y gwaith hwn.

1.4. Eleni, mae elfennau o'r Adroddiad Blynyddol wedi'u cyflwyno mewn fformat sy'n fwy hygyrch i blant a phobl ifanc (**Atodiad 3**). Gwnaed hyn er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o ddiogelu a sicrhau bod gwybodaeth am y gwaith yn fwy dealladwy i gynulleidfa ehangach.

1.5. Mae'n hanfodol fod holl aelodau'r Cyngor yn ymwybodol o waith y Panel ar ddiogelu ac yn gallu bodloni eu hunain bod y Panel wedi ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen yn drylwyr a chydwybodol.

1.6. Yn ogystal â goruchwylio gweithgarwch diogelu ar draws y Cyngor, bu'r Panel hefyd yn arwain adolygiad o'r Polisi Diogelu rhwng Ionawr a Mawrth 2026. Y Polisi Diogelu sy'n datgan sut rydym yn bwriadu cyflawni ei gyfrifoldebau statudol ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014). Cynhaliwyd yr adolygiad hwn fel rhan o gylch adolygu rheolaidd y polisi, a gynhelir bob dwy flynedd.

1.7. Sefydlwyd is-grŵp i arwain yr adolygiad, yn cynnwys Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Rheolwyr Diogelu Plant ac Oedolion, Rheolwr Dysgu a Datblygu, Pennaeth yr Adran Oedolion, Swyddog Diogelwch Cymunedol, ac Uwch Swyddog Gweithredol.

1.8. Gwnaed nifer o newidiadau i'r Polisi Diogelu yn dilyn yr adolygiad, gan gynnwys:

- Amlygu'r llwybr ar gyfer codi pryderon a'r manylion cyswllt perthnasol yn gliriach ar ddechrau'r ddogfen.
- Cyflwyno gweithdrefnau mwy ymarferol ar gyfer cofnodi pryderon, gan gynnwys canllawiau ar y wybodaeth y dylid ei chofnodi.
- Egluro gofynion hyfforddiant diogelu mandadol a rheolaidd (bob tair blynedd), ynghyd â chryfhau trefniadau monitro cydymffurfiaeth.
- Egluro rôl a chyfrifoldebau'r Person Dynodedig Diogelu.
- Cryfhau'r gofynion a'r disgwyliadau diogelu ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir.
- Symleiddio'r atodiadau, gan gynnwys darparu dolenni at ganllawiau a gwybodaeth ddefnyddiol.
- Cryfhau trefniadau llywodraethu diogelu drwy:
    - fonitro cyfraddau cwblhau hyfforddiant diogelu a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) ym mhrosesau herio perfformiad pob adran;
    - sefydlu diogelu fel eitem barhaol ar agenda'r Tîm Rheoli Corfforaethol;
    - ei gynnwys fel eitem reolaidd ar agenda timau rheoli adrannol;
    - barhau i gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol Diogelu i'r Cyngor Llawn.

1.9. Cynhaliwyd ymgynghoriad anffurfiol ar y Polisi diwygiedig gydag aelodau'r Panel Strategol Diogelu, y Grŵp Gweithredol Diogelu a'r Gwasanaeth Caffael. Cyflwynwyd y polisi drafft hefyd i'r Pwyllgor Craffu Gofal ar 4 Mehefin 2026, lle cafwyd trafodaeth adeiladol ar ei gynnwys. Derbyniwyd nifer o sylwadau a chynigion gwerthfawr yn ystod y broses, ac mae'r rhain wedi'u hymgorffori yn y fersiwn ddiwygiedig o'r Polisi.

1.10. Ar 15 Gorffennaf 2026, fe cymeradwyodd y Cabinet Adroddiad Blynyddol y Panel Strategol Diogelu 2025/26 Polisi diwygiedig, ac felly mae'r newidiadau uchod bellach wedi ei fabwysiadu.

1.11. Rydym yn cydnabod fod angen gwaith pellach er mwyn hyrwyddo'r Polisi diwygiedig ymysg holl staff y Cyngor. Teimlir fod ei gyflwyno i chi yn y Cyngor Llawn yn gam pwysig er mwyn codi ymwybyddiaeth yn eang i'r Polisi.

1.12. **Asesiad Ardrawiad Cydraddoldeb**

1.12.1. Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("Y Ddeddf") (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Cymreig) wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i'r Cyngor dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig ynghyd a dal sylw at ardrawiadau economaidd gymdeithasol.

1.12.2. Nid oes Asesiad Effaith Cydraddoldeb newydd wedi'i baratoi ar gyfer yr adolygiad hwn, gan nad yw'r gofynion statudol na'r cyfrifoldebau sylfaenol a osodir ar y Cyngor wedi newid. Mae'r diwygiadau a gynigir yn bennaf yn darparu eglurder pellach i staff ac Aelodau Etholedig ynghylch eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod.

1.12.3. Fodd bynnag, gan fod cyfnod sylweddol wedi mynd heibio ers mabwysiadu'r polisi gwreiddiol, bwriedir cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn fel rhan o'r adolygiad nesaf o'r Polisi er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i adlewyrchu arfer da.

**2. Argymhelliad**

2.1. Gofynnir i'r Cyngor:

- dderbyn yr Adroddiad gerbron sy'n adrodd ar waith y Panel Strategol Diogelu ar gyfer y flwyddyn 2025/26 (**Atodiad 1**).
- nodi'r Polisi Diogelu diwygiedig (**Atodiad 2**)

**3. Barn y Swyddogion Statudol**

3.1. Barn y Swyddog Monitro

Fel aelod o'r Panel rwy'n croesawu'r adroddiad sydd yn grynodeb priodol o'r gwaith Mae'n gyfrwng i roi sicrwydd i'rCyngor ynglŷn â'r cyfrifoldeb allweddol yma.

3.2. Barn y Pennaeth Cyllid

Mae'r adroddiad yn cyflwyno gwybodaeth i'r Cyngor am weithgareddau dros y flwyddyn ddiwethaf. Nid yw'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant newydd , felly nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol.

# ADRODDIAD PANEL STRATEGOL DIOGELU

## 2025/26

# CIPOLWG O'R FLWYDDYN 2025/26

**94%** ▲ 2%
o gyfeiriadau diogelu (Oedolion) yr ymatebwyd iddynt o fewn 7 diwrnod

**8,069** ▲ 284
o gyfeiriadau i Wasanaethau Plant

**98%** ▲ 6%
o gyfeiriadau i'r tîm derbyn a ymatebwyd iddynt o fewn y cyfnod statudol (24 Awr)

**792** ▲ 42
o gyfeiriadau diogelu oedolion

**75.9%** ▲ 39.5%
o staff y Cyngor wedi cwblhau'r Hyfforddiant Diogelu (Grŵp A)

**319** ▼ 37
o drigolion yn aros am asesiad DoLS (31.3.26)

**100%** ▲ 3%
o ysgolion wedi cyflwyno hyfforddiant diogelu i'r holl staff

**282** ▲ 20
o blant yn derbyn eu haddysg gartref

**74.7%** ▲ 15.2%
o staff y Cyngor wedi cwblhau'r Hyfforddiant VAWDASV

**293** ▲ 12
o blant mewn gofal (31.3.26)

**100%**
o'r asesiadau risg a gyflwynwyd i Gynadleddau Achos (Plant) yn dangos ansawdd uchel wrth wneud penderfyniadau.

**126** ▲ 20
o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant (31.3.26)

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Bu'n gyfnod cythryblus a heriol dros ben i Gyngor Gwynedd ym maes diogelu gyda'r angen i wella a chryfhau systemau diogelu yn ganolog I'n gwaith eleni ac felly y bydd hefyd ar gyfer y flwyddyn sydd ar ddod.

1.2. Cyflwyna'r adroddiad hwn drosolwg o waith y Panel Strategol Diogelu dros y cyfnod Ebrill 2025 hyd at Fawrth 2026. Amlinellir y gwaith a gyflawnwyd gan y Cyngor, yn ogystal â'r gwaith a wnaed mewn partneriaeth ag eraill, gan geisio rhoi darlun teg, cytbwys a thryloyw o'r cynnydd a'r heriau.

1.3. Nod y Panel Strategol Diogelu yw sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau addas yn eu lle ar lefel gorfforaethol ar draws y Cyngor er mwyn sicrhau diogelwch plant, pobl ifanc ac oedolion. Ers 2017/18 mae'r Panel hefyd yn gyfrifol am drosolwg o faterion diogelu ehangach ar draws Gwynedd, megis Diogelwch Cymunedol.

1.4. Mae'r Panel yn ei dro yn atebol i Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd â'r atebolrwydd terfynol am faterion diogelu.

1.5. Mae tymor Cadeirydd y Panel yn ddwy flynedd. Hyd at Fehefin 2025, Cynghorydd Menna Trenholme, Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd, oedd y Cadeirydd. Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Mehefin 2025, etholwyd y Cynghorydd Dewi Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfnod 2025–2027.

1.6. Mae Grŵp Gweithredol Diogelu yn cefnogi'r Panel Strategol i weithredu ei flaenoriaethau ac i ymdrin â materion ymarferol y maes gwaith. Grŵp mewnol o swyddogion yw hwn, gyda Person Diogelu Dynodedig pob adran yn eistedd arno, a hynny er mwyn sicrhau perchnogaeth Cyngor cyfan o faterion diogelu.

1.7. Yn ystod y flwyddyn, adolygwyd cylchoedd gorchwyl y Panel Strategol Diogelu a'r Grŵp Gweithredol Diogelu, gan wneud mân newidiadau er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn addas i'r diben.

## 2. ADOLYGU'R POLISI DIOGELU

2.1. Cynhelir adolygiad o Bolisi Diogelu'r Cyngor ar gylch dwy flynedd. Mae'r polisi hwn yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni ei gyfrifoldebau statudol i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

2.2. Rhwng Ionawr a Mawrth 2026 cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o'r Polisi. Sefydlwyd is-grŵp i arwain yr adolygiad, yn cynnwys Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol,

Rheolwyr Diogelu Plant ac Oedolion, Rheolwr Dysgu a Datblygu, Pennaeth yr Adran Oedolion, Swyddog Diogelwch Cymunedol, ac Uwch Swyddog Gweithredol.

2.3. Gwnaed nifer o newidiadau i'r Polisi Diogelu yn dilyn yr adolygiad, gan gynnwys cryfhau eglurder a defnyddioldeb y ddogfen. Rhoddwyd mwy o bwyslais ar egluro'r llwybr ar gyfer codi pryderon, gan ei amlygu'n glir ar ddechrau'r ddogfen. Datblygwyd gweithdrefnau mwy ymarferol ar gyfer adrodd a chofnodi pryderon, gan gynnwys adran newydd fanwl sy'n nodi'r wybodaeth y dylid ei chofnodi wrth weld neu glywed am fater diogelu.

2.4. Cryfhawyd atebolrwydd a rôl arweiniol uwch swyddogion, ac amlygwyd hefyd yn gliriach rolau a chyfrifoldebau unigolion a gwahanol grwpiau o staff.

2.5. Eglurwyd y gofynion hyfforddiant yn amlycach, gan bwysleisio disgwyliadau hyfforddiant mandadol a rheolaidd (pob tair mlynedd) ar gyfer staff ac aelodau etholedig, ynghyd â chryfhau trefniadau monitro cydymffurfiaeth.

2.6. Cymerwyd camau pellach i gryfhau atebolrwydd ar draws y Cyngor ym maes diogelu. Mae'r Polisi bellach yn cynnwys y gofynion isod:

- Cynnwys data (%) nifer sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu a hyfforddiant trais yn y cartref fel rhan o'r broses Herio Perfformiad ym mhob adran.
- Sefydlu diogelu fel eitem barhaol ar agenda'r Tîm Rheoli Corfforaethol.
- Gofyn i bob adran gynnwys diogelu fel eitem reolaidd ar agenda eu timau rheoli adrannol.
- Parhau â'r drefn o gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor Craffu Gofal, y Cabinet a'r Cyngor llawn.

2.7. Derbyniwyd mewnbwn gan aelodau'r Panel Strategol Diogelu a'r Grŵp Gweithredol Diogelu ehangach, a gyfrannodd at wella'r ddogfen ymhellach. Bydd y polisi diwygiedig yn mynd gerbron y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet cyn ei fabwysiadu'n ffurfiol. Bydd hefyd yn cael ei gyflwyno er gwybodaeth i'r Cyngor Llawn.

## 3. ADRODDIAD CYFIAWNDER TRWY EIN DEWRDER

3.1. Yn dilyn cyhoeddi adroddiad Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru, *Cyfiawnder Drwy Ein Dewrder*, ym mis hydref 2025, lluniwyd cynllun ymateb cynhwysfawr gan Gyngor Gwynedd i fynd i'r afael â'r argymhellion, ynghyd â materion ehangach a nodwyd mewn archwiliadau ac ymchwiliadau cysylltiedig. Roedd hwn yn adroddiad heriol a damniol, ac mae'r Cyngor yn cydnabod bod gwersi pwysig i'w dysgu.

3.2. Sefydlwyd Bwrdd Ymateb i oruchwylio'r gwaith, dan gadeiryddiaeth yr Athro Sally Holland, cyn Gomisiynydd Plant Cymru. Nod y Bwrdd yw sicrhau cynnydd cadarn a rhoi sicrwydd i'r

Cyngor, aelodau etholedig a rhanddeiliaid fod camau pendant yn cael eu cymryd i gryfhau trefniadau diogelu ac i wella profiadau plant ac oedolion bregus yng Ngwynedd.

3.3. Ers hynny, mae'r bwrdd wedi cyfarfod yn rheolaidd ac wedi elwa ar fewnbwn ac arweiniad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Estyn a Llywodraeth Cymru. Ystyriwyd hefyd y dysgu o'r archwiliad ar y cyd gan AGC ac Estyn ym mis Tachwedd 2025. Mae Sally Holland yn adrodd yn chwarterol i Gabinet y Cyngor, tra bod Grŵp Sicrwydd Gweinidogol Llywodraeth Cymru hefyd yn monitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion.


3.4. Erbyn Mawrth 2026, cyflawnwyd cynnydd cadarnhaol ar nifer o'r camau a nodwyd. Fodd bynnag, erys gwaith pellach, ac mae'r Cyngor yn parhau'n ymrwymedig i weithredu ar y dysgu a sicrhau gwelliannau parhaus.

3.5. Mae'r Panel Strategol Diogelu hefyd yn chwarae rôl allweddol o ran craffu ar gynnydd, gan gynnwys monitro lefelau hyfforddiant diogelu ar draws y Cyngor. Bydd ganddo rôl gryfach yn y dyfodol o ran darparu trosolwg strategol o'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion.

## 4. PERFFORMIAD A CHYNNYDD YN Y MAES DIOGELU

### 4.1. <u>Diogelu Plant</u>

4.1.1. Derbyniwyd **8,069** o gyfeiriadau i wasanaethau plant yn 2025/26. Mae hyn yn gynnydd o **3.7%** yn y nifer o gyfeiriadau o gymharu â 7785 y llynedd.



4.1.2. Unwaith eto, mae'r pwysau ar y gwasanaeth wedi bod yn sylweddol, gyda'r gweithlu'n hynod brysur yn cefnogi plant a theuluoedd ar draws y sir. Nodir bod natur yr achosion a welir bellach yn llawer mwy dwys a chymhleth nag yn y gorffennol. Yn ystod 2025/26, gwelwyd cyfeiriadau ar gyfer teuluoedd gyda nifer o blant, lefelau uwch o esgeulustod, camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig a theuluoedd newydd yn dod i sylw, gan ychwanegu at yr heriau gweithredol.


4.1.3. Gwelir cynnydd yn y nifer sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant eleni. Ar 31 Mawrth 2025 roedd y nifer o blant ar y gofrestr yn **106**, ac eleni mae'r nifer yn **126**. Mae cam-drin emosiynol yn parhau i fod y prif reswm dros gynnwys plant ar y gofrestr a gweler fod mae plant yn tueddu i aros ar y gofrestr am gyfnodau hirach erbyn hyn. Gwelir patrymau tebyg mewn sawl Awdurdod Lleol a bwriedir ystyried dulliau amgen o gefnogi plant dros y flwyddyn sydd i ddod.

4.1.4. Cafodd **84% (↑2%)** o adolygiadau amddiffyn plant eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn. Roedd cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau yn parhau yn uchel ar **100%**.

4.1.5. Mae'r gwaith Rhan 5 o weithdrefnau diogelu Cymru ar gynnydd eto eleni. Mae Rhan 5 yn ymwneud â phryderon diogelu am ymarferwyr a'r rhai mewn swyddi o ymddiriedaeth, ac mae'r gweithdrefnau hyn yn nodi trefniadau ar gyfer ymateb i bryderon diogelu am y rhai y mae eu gwaith, naill ai'n gyflogedig neu'n wirfoddol, yn dod â nhw i gysylltiad â phlant neu oedolion sy'n wynebu risg. Bwriedir cynyddu capasiti drwy greu swyddi ychwanegol o fewn yr Uned Diogelu yn fuan yn 2026/27.

4.1.6. Erbyn hyn mae Gwasanaethau Plant Gwynedd yn mabwysiadu dull rhagweithiol o sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed wrth ymateb i bryderon sy'n ymwneud ag unigolion sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae rhai heriau o ganlyniad i wrthodiad rhieni yn golygu bod angen gwneud asesiadau unigol i benderfynu ar y camau priodol.

4.1.7. Ar ddiwedd mis Mawrth roedd **293 (↑12)** o blant mewn gofal. O'r cyfanswm plant mewn gofal mae **66%** mewn lleoliadau maeth, **28** (**10%)** mewn lleoliadau preswyl a **50 (17%)** wedi ei lleoli gyda'u rhieni. Roedd **3** plentyn mewn lleoliad mabwysiedig ar ddiwedd y cyfnod, gyda **12** person ifanc yn byw yn annibynnol gyda chefnogaeth.




4.1.8. Yn ystod 2025/26 defnyddiwyd trefniadau lleoliadau heb gofrestriad (OWR) ar gyfer **4** o bobl ifanc mewn gofal. Yn anffodus mae'r sefyllfa yn genedlaethol erbyn hyn yn un llawer mwy difrifol, gyda'r mwyafrif, os nad pob awdurdod yn cael eu gorfodi i sicrhau fod trefniant o'r fath ar gael oherwydd diffyg lleoliadau cofrestredig ar draws y Deyrnas Unedig.

4.1.9. Pan mae angen lleoli plentyn mewn gofal, dymunir eu cadw yn agos at eu teulu a'u bro. Felly, canolbwyntir ar ddod o hyd i ffyrdd o letya a gofalu am blant a phobl ifanc yn nes at adref, fel y gallent barhau i fod yn rhan o'u cymuned a chynnal eu rhwydweithiau cymorth. Mae datblygu Cartrefi Grŵp Bychain felly yn flaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor 2023-28.

4.1.10. Mae dau gartref eisoes yn weithredol ym Morfa Bychan a Deiniolen, gyda'r plant wedi setlo'n dda yn y lleoliadau. Mae gwaith adnewyddu bron a gorffen erbyn hyn ar gyfer y cartref yn Edern. Prynwyd trydydd tŷ yng Nghricieth llynedd gyda'r broses gofrestru gydag Archwilio Gofal Cymru yn mynd rhagddo. Mae gwaith hefyd wedi cychwyn yn ystod y flwyddyn ar y tŷ gyda'r gobaith y bydd y gwaith yn cwblhau yn fuan yn 2026/27.

4.1.11. Parha cost uchel lleoliadau arbenigol y tu allan i'r sir i roi pwysau sylweddol ar y gyllideb, gyda rhai costau'n codi'n annisgwyl ac yn anodd eu rhagweld ymlaen llaw. Er bod rhai lleoliadau o'r fath yn anochel, mae'r pwysau hwn wedi arwain y Cyngor i gyflymu'r gwaith o ddatblygu cartrefi grŵp bychain er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth leol a lleihau'r ddibyniaeth ar ddarpariaeth gostus y tu allan i'r sir. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd ag agenda dielw plant Llywodraeth Cymru, sydd yn ceisio sicrhau bod gofal

a llety plant yn cael ei ddarparu ar sail anghenion plant yn hytrach nag elw. Crëwyd rôl benodol i gefnogi a chyflymu'r rhaglen yn ystod 2026/27.

4.2. **Diogelu Oedolion**

4.2.1. Derbyniwyd **792** o adroddiadau Oedolion yn ystod 2025/26, bu hyn yn gynnydd o'r **750** adroddiad a dderbyniwyd yn ystod 2024/25. Ar gyfartaledd, cafodd **94.4%** (**↑2.3%**) o'r ymholiadau cychwynnol a.126 o atgyfeiriadau diogelu wedi'u cwblhau o fewn y cyfnod statudol o 7 diwrnod.

4.2.2. O'r adroddiadau oedolion mewn perygl a dderbyniwyd, rheolwyd y risg mewn **100%** o'r achosion.

4.2.3. Er bod yr adran wedi penodi Swyddog Diogelu rhan-amser ychwanegol, mae capasiti'n parhau'n heriol oherwydd salwch hirdymor o fewn y tîm. O ganlyniad, mae'r baich gwaith ychwanegol wedi disgyn ar arweinwyr Timau Adnoddau Cymunedol a'r Timau Gwaith Cymdeithasol i gwblhau'r gwaith diogelu. Er mwyn rheoli'r risg, mae swydd dros-dro bellach wedi'i hysbysebu; fodd bynnag, mae recriwtio wedi bod yn heriol, gan olygu bod angen ail-hysbysebu'r swydd.

4.2.4. Mae'r swyddogion yn cynnal gwaith monitro rheolaidd ac yn ymateb yn brydlon i unrhyw bryderon, gan sicrhau bod gofal diogel ac o ansawdd uchel yn cael ei gomisiynu. Dengys y data bod ymweliadau rheolaidd yn cael eu cynnal â chartrefi preswyl. Cyflwynwyd ffurflen cyn-fonitro sy'n cynorthwyo swyddogion i baratoi'n fwy effeithiol ar gyfer ymweliadau ac i ganolbwyntio ar feysydd risg posibl.

4.2.5. Mae'r tîm hefyd yn cyfarfod bob pythefnos gyda'r Tîm Meddyginiaethau a rheolwyr mewnol i drafod gwallau meddyginiaeth a darparu cymorth priodol. Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddiogelwch preswylwyr o fewn y ddarpariaeth.

4.2.6. Mae un darparwr yn parhau o dan y drefn Pryderon Cynyddol, ac mae embargo ar fynediadau newydd wedi bod mewn lle ers mis Hydref 2025. Mae'r embargo hwn yn effeithio ar allu'r gwasanaethau i leoli unigolion yn yr ardal honno, ac mae ymdrechion parhaus yn cael eu gwneud i gydweithio â'r darparwr er mwyn sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gweithredu'n llawn.

4.2.7. Mae pryder ynghylch y gwasanaeth DoLS (Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid – Deprivation of Liberty Safeguards) yn parhau. Ar ddiwedd Mawrth 2026, roedd **319** o unigolion yn aros am asesiad DoLS, o'i gymharu â **356** ar ddiwedd Mawrth 2025. Mae'n angenrheidiol blaenoriaethu achosion yn ôl lefel y risg, gan roi sylw penodol i unigolion sy'n byw mewn llety gyda chymorth, lle mae angen cyflwyno cais i'r Llys Gwarchod er mwyn awdurdodi amddifadu o ryddid.

4.2.8. Gwnaed bid llwyddiannus yn ystod 2024/25 i gyflogi dau Asesydd Budd Gorau ar sail parhaol. Tra benodwyd dwy unigolyn i'r rolau, nid oedd ganddynt y cymhwyster na'r profiad i gychwyn yn syth. Bellach mae'r ddwy wedi cwblhau eu hyfforddiant, wedi cymhwyso ac wedi cychwyn ar eu llwyth achos.

4.3. **Addysg**

4.3.1. Yn ystod 2025/26, mae'r Tîm Diogelu a Llesiant Ysgol wedi cynnal ymweliadau ag 89 ysgol i adolygu a sicrhau ansawdd trefniadau, polisïau a gweithdrefnau diogelu. Ers Ionawr 2025, mae pob ysgol yn derbyn ymweliad blynyddol i asesu ansawdd eu trefniadau diogelu, gan sicrhau cysondeb a chydymffurfiaeth ar draws y sir.

4.3.2. Mae bron pob un ysgol ymwelwyd â hwy yn 2025/26 cydymffurfio gyda threfniadau diogelu priodol. O'r ymweliadau hyn **4 ysgol** sydd wedi derbyn ail ymweliad er mwyn gwirio agweddau fel trefniadau cofnodi presenoldeb / absenoldeb a cynnwys posteri Diogelu.

4.3.3. Mae Arolwg Blynyddol Diogelu yn cael ei gwblhau gan pob ysgol yn flynyddol. Mae'r canfyddiadau diweddaraf yn nodi:

- **95% (↑1%)** o'r "Prif Bersonau Diogelu" mewn ysgolion wedi derbyn hyfforddiant diogelu penodol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf;
- **85% (→aros yr un fath)** o Lywodraethwyr Dynodedig Ysgolion Gwynedd hefyd wedi derbyn yr hyfforddiant perthnasol i'w rôl yn y ddwy flynedd diwethaf;
- **100% (↑3%)** o ysgolion Gwynedd wedi cyflwyno Hyfforddiant sylfaenol Diogelu i'r holl staff cyn diwedd Tymor y Gaeaf;
- **100% (aros yr un peth)** o ysgolion Gwynedd yn nodi eu bod yn hyderus bod holl staff yr ysgol a gwirfoddolwyr yn gwybod beth i'w wneud pe byddai plentyn yn datgelu gwybodaeth am gamdriniaeth.

4.3.4. Ers Ebrill 2025 mae'r Gwasanaeth Diogelu a Llesiant wedi cynnal:

- **3** sesiwn hyfforddiant Diogelu i Gadeiryddion a Llywodraethwyr Diogelu dynodedig
- **14** sesiwn hyfforddiant Person Diogelu Dynodedig gyda cyfanswm o **161 unigolyn** yn mynychu .

Yn ogystal, mae'r swyddog Arweiniol Dynodedig wedi cynnal sesiynau hyfforddiant i athrawon llanw, staff blynyddoedd cynnar, tîm moderneiddio addysg a staff Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

4.3.5. Yn mis Chwefror 2026, penodwyd aelod ychwanegol er mwyn cynyddu capasiti y Tîm Diogelu a Llesiant Addysg. Mae'r tîm eisoes wedi datblygu adnoddau newydd i

gryfhau ymateb ysgolion i faterion diogelu, gan gynnwys siartiau llif syml ar gyfer pryderon diogelu a honiadau yn erbyn staff, ynghyd â phosteri safonol i'w harddangos yn yr ysgolion a'u gwefannau. Mae'r deunyddiau'n cynnwys manylion y personau diogelu dynodedig a chadeiryddion, manylion y Tîm Diogelu a Llesiant Addysg ac yn cefnogi eglurder a hygyrchedd gwybodaeth i staff, llywodraethwyr a rhieni.

4.3.6. Mae pob ysgol wedi yn mabwysiadu'r polisi enghreifftiol 'Hyrwyddo mesurau ac arferion fydd yn arwain at ddefnyddio a lleihau ymyrraeth gyfyngol.' Mae hyn yn cael ei wirio yn ystod yr ymweliadau ansawdd diogelu blynyddol. Mae gwerthusiad allanol wedi ei gomisiynu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r canllawiau cenedlaethol yn ogystal â datblygu trefniadau a darpariaethau hyfforddi ymhellach. Bydd argymhellion y gwerthusiad yn arwain at ddatblygu a chryfhau hyfforddiant a chefnogaeth i ysgolion, gan eu harfogi i ymateb yn ddiogel mewn achosion o ymyrraeth gyfyngol, wrth wrando ar lais y disgybl a bod yn adlewyrchol o unrhyw ymyrraeth o'r fath

4.3.7. Ar ddiwedd Mawrth 2026 yr oedd cyfanswm o **282 (↑7.63%)** o blant yn derbyn eu haddysg gartref o ddewis rhieni. Mae'r ffigwr yma yn cynnwys **158** o blant sydd yn hanesyddol ar y gofrestr a **124** o'r newydd ers Medi 2025. Nid yw pob plentyn sydd ar y gofrestr wedi cofrestru mewn ysgol yn flaenorol, gyda rhai yn symud mewn i'r Sir ond ddim am gofrestru mewn ysgol ac eraill yn gwneud y penderfyniad yn fuan iawn o addysgu gartref o oedran statudol addysg.

4.3.8. Y prif resymau am ddewis rhiant i addysgu gartref yw ei ffordd o fyw/ideolegol ond gôr-bryder a phroblemau iechyd meddwl ar gynnydd. Llwyddwyd i gadw cyswllt cyson gyda mwyafrif y teuluoedd yma gyda nifer fychan yn gwrthod unrhyw gyswllt (yn unol a'u hawliau).

## 4.4. <u>**Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)**</u>

4.4.1. Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan godi ymwybyddiaeth, darparu cefnogaeth i ddioddefwyr a gwella ymateb gwasanaethau.

4.4.2. Yn dilyn cais wedi'i baratoi gan swyddogion o'r Adran Gefnogaeth Gorfforaethol, derbyniodd y Cyngor achrediad 'Rhuban Gwyn' ym mis Mai 2022. Mae Rhuban Gwyn yn sefydliad sy'n gweithio i godi ymwybyddiaeth ac annog pobl, yn enwedig dynion, i weithredu yn erbyn trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig.

4.4.3. Gweithiwyd hefyd â'r Heddlu i ddatblygu menter o'r enw 'Parthau Diogel' ym Mangor a Chaernarfon. Mae'r dull yn un syml ond effeithiol, gan ganolbwyntio ar

wella gwyliadwriaeth naturiol, goleuadau a defnyddio'r systemau teledu cylch cyfyng presennol mewn lleoliadau allweddol. Gwnaed cais llwyddiannus i'r Swyddfa Gartref am gyllid i gefnogi'r prosiect, ac mae'r gwaith bellach yn mynd rhagddo.

4.4.4. Mae **11.1 o bob mil o'r boblogaeth** yng Ngwynedd yn profi trais domestig yn flynyddol (1.1%). Mae hyn yn cymharu â 10.4 ym Môn, 17.5 yn Sir Ddinbych ac 16.5 yng Nghonwy. Yn ystod 2025/26, mae'r Cyngor wedi comisiynu Gorwel (drwy Grŵp Cynefin) a DASU (Uned Diogelwch Trais Teuluol) i ddarparu gwasanaethau cefnogaeth i ddioddefwyr, gan gynnwys cefnogaeth ymarferol ac emosiynol, tai a lloches i unigolion mewn argyfwng, cyngor diogelwch, eiriolaeth ac arweiniad i lywio'r system gyfiawnder.

4.4.5. Mae'r Cyngor hefyd wedi gwneud cais llwyddiannus drwy'r Grant Cyfalaf VAWDASV Llywodraeth Cymru i brynu 100 o gamerâu diogelwch i gefnogi goroeswyr cam-drin domestig yn yr ardal. Bydd y camerâu'n cael eu dosbarthu drwy bartneriaid allweddol, gan gynnwys yr Heddlu, DASU a Gorwel, er mwyn darparu cefnogaeth ymarferol i unigolion sy'n wynebu risg.

4.4.6. Yn ogystal, yn dilyn trafodaethau gyda Chymorth i Ferched Cymru ynghylch cefnogi goroeswyr cam-drin domestig byddar, trefnodd y Bartneriaeth hyfforddiant Iaith Arwyddion Prydain (BSL) drwy Goleg Llandrillo ar gyfer staff Siop Gwynedd a sefydliadau cam-drin domestig lleol. Bydd adborth yn cael ei gasglu gan y cyfranogwyr er mwyn asesu effaith y sesiwn ac i nodi unrhyw anghenion pellach, gyda'r posibilrwydd o drefnu sesiynau ychwanegol yn unol â'r galw.

4.4.7. Mae'r Adran Tai, drwy gyllid Grant Cefnogi Tai, wedi comisiynu asesiad cynhwysfawr o'r gwasanaethau Trais Domestig er mwyn cryfhau cydweithio ac yn hwyluso comisiynu ar y cyd i'r dyfodol. Cytunwyd bod y gwasanaethau presennol a'r trefniadau wedi bod yn rhy ddatgymalog, ac y byddai'n fuddiol sefydlu gweithgor penodol ar drais yn y cartref o fewn y Cyngor.

4.4.8. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad cenedlaethol i adolygu'r gwasanaethau Trais Domestig. Nodir bod gwahaniaethau sylweddol yn y modelau ariannu a darparu ar draws rhanbarthau. Er enghraifft, yn y gogledd mae cyllid yn cael ei sianelu drwy'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, tra mewn ardaloedd eraill mae'n mynd yn uniongyrchol i Awdurdodau Lleol. Mae'r ymgynghoriad felly'n gyfle i Lywodraeth Cymru ystyried cysoni'r dulliau gweithredu ar draws y wlad.

4.4.9. Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn yn gyfrifol am gomisiynu Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHR) yng Ngwynedd. Mae un adolygiad DHR

wedi derbyn cymeradwyaeth gan y Swyddfa Gartref ac ar fin cael ei gyhoeddi a mae drafft cyntaf o adolygiad DHR arall wedi gyflwyno cyn y Nadolig.

4.4.10. Erbyn hyn, caiff y ddyletswydd statudol hon ei chyflawni drwy'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR), sy'n ymgorffori Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHRs) o fewn yr un broses adolygu a ddefnyddir bellach ar gyfer pob adolygiad diogelu yng Nghymru. Mae'r adolygiad cyntaf i ddilyn y drefn hon wedi cychwyn, gyda cyfarfod cyntaf o'r Panel wedi cyfarfod mis Mawrth 2026.

4.4.11. Erbyn hyn mae'r e-fodiwl Trais yn y Cartref (VAWDASV) yn statudol i holl aelodau staff. Mae'n hollbwysig fod y gweithlu yn derbyn yr hyfforddiant i sicrhau bod y Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu i gefnogi unigolion ac i godi ymwybyddiaeth. Mae'r hyfforddiant 'Ask and Act' hefyd yn cael ei hyrwyddo er mwyn rhoi hyder i staff i helpu unigolion sy'n profi trais, cam-drin domestig neu drais rhywiol. Ar 31 Mawrth 2026 roedd **74.7%** o staff y Cyngor (gan gynnwys staff Parhaol, Achlysurol a Chyfnod Penodol) wedi cwblhau'r hyfforddiant.

4.4.12. Cynhaliwyd rhagor o sesiynau hyfforddiant 'Ymyrryd gan Wylwyr' i staff y Cyngor. Darparwyd hwn gan Lywodraeth Cymru, gyda'r nod o helpu unigolion ddelio â sefyllfaoedd niweidiol posibl fel aflonyddu rhywiol, gan roi hyder i gael sgyrsiau gyda ffrindiau a chydweithwyr am y materion hyn.

4.4.13. Eleni, comisiynwyd cyfres o sesiynau hyfforddiant i staff gan Men at Work, mudiad a sefydlwyd gan Michael Conroy, er mwyn rhoi mwy o hyder ac adnoddau ymarferol i weithwyr proffesiynol gynnal sgyrsiau adeiladol gyda bechgyn a dynion ifanc ar ystod o bynciau sensitif a phwysig. Roedd hyn yn cynnwys perthnasau iach, dylanwadau ar-lein, stereoteipio o ran rhyw, hunanddelwedd, ymddygiadau peryglus, effeithiau pornograffi a llesiant. Roedd yr hyfforddiant yn cynnig dull ymarferol, agored ac ystyriol o gefnogi staff i ymgysylltu'n effeithiol â phobl ifanc ar y materion hyn, a derbyniwyd adborth cadarnhaol iawn gan y rhai a fynychodd.

## 4.5. <u>Troseddu</u>

4.5.1. Mae'r Cyngor yn cydweithio â'r Heddlu drwy'r Bwrdd Partneriaeth Cymunedol, a ceir trosolwg rheolaidd o lefelau trosedd o fewn Gwynedd. Yn ystod 2025/26, gwelwyd **cynnydd bychan o 3.6%** yn nifer y troseddau yng Ngwynedd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

4.5.2. Mae lefel y Troseddau Rhyw a gofnodwyd hyd yma yn 2025/26 yng Ngwynedd wedi gweld **gostyngiad o 1.5%** gymharu â 2024/25. Gall fod amrywiadau sylweddol mewn troseddau a adroddir o wythnos i wythnos, yn rhannol oherwydd adrodd o droseddau hanesyddol.

4.5.3. Mae troseddau meddiangar (acquisitive) yn cynnwys y categorïau Byrgleriaeth Breswyl, Byrgleriaeth Busnes a Torri mewn i eiddo, Lladrad, Troseddau Cerbyd a Dwyn a Thrin. Mae Byrgleriaeth Breswyl a Byrgleriaeth Busnes a Chymuned gostwng eleni, ond fe welir cynnydd yn y niferoedd o Droseddau Cerbyd, Lladrad personol a Dwyn a Thrin.

4.5.4. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Ngwynedd wedi gweld gostyngiad hyd yma o **0.7%** yn 2025/26, o gymharu â'r un cyfnod yn 2024/25. Gwneir gwaith cydweithredol gyda Chynghorau Tref a Chymuned, yr Adran Briffyrdd a'r Heddlu, er mwyn gosod camerâu teledu cylch cyfyng (CCTV) lle bo'r angen yn codi fwyaf.

4.5.5. Daeth y Dyletswydd Trais Difrifol i rym yn genedlaethol ym mis Ionawr 2023. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau penodedig gydweithio i baratoi a gweithredu strategaeth ar gyfer atal a lleihau trais difrifol yn yr ardal. Cyhoeddwyd Strategaeth derfynol Gogledd Cymru yn Ionawr 2024. Mae'r Cyngor wedi bod yn rhan o'r gwaith yma ers y cychwyn ac yn parhau i fod yn rhan o'r Grŵp Llywio Rhanbarthol i weithredu'r Ddyletswydd.

4.5.6. Fel rhan o'r ddyletswydd, derbyniodd y Bartneriaeth gyllid o £65k ar gyfer projectau ataliol ac ymyrraeth gynnar er mwyn lleihau trais difrifol gan blant a phobl ifanc. Cwblhawyd sawl prosiect erbyn Ebrill 2026, gan gynnwys:

- Sesiynau addysgol "Peidiwch â Dwyn Fy Nyfodol" gan RASASC Cymru i godi ymwybyddiaeth o drais rhywiol ac annog newid agweddau ac ymddygiad.
- Ymgyrch ymwybyddiaeth ar werthu *vapes* anghyfreithlon a cham-fanteisio ar blant, gyda ffocws ar gynyddu adrodd a rhannu gwybodaeth.
- Cynyddu darpariaeth ieuenctid dros wyliau'r haf a hanner tymor gyda gweithgareddau wedi'u targedu ar gyfer pobl ifanc 11–25 oed mewn ardaloedd risg uchel o droseddu a thrais.
- Prosiect ysgolion dan arweiniad yr Adran Addysg i atal trais difrifol, yn cynnwys hyfforddiant, mentora a gwaith grŵp i leihau gwaharddiadau a chadw disgyblion yn ddiogel ac mewn addysg.

## 4.6. <u>Caethwasiaeth Fodern</u>

4.6.1. Mae caethwasiaeth fodern yn rhychwantu sawl math o gam-fanteisio sef, llafur, troseddol, cam-fanteisio rhywiol a chaethwasanaeth domestig. Yng Ngogledd Cymru, mae achosion Caethwasiaeth Fodern yn yr ardal yn ymwneud yn bennaf â cham-fanteisio cyffuriau, lle mae'r dioddefwyr yn aml yn wryw ifanc sydd yn cael ei orfodi i fasnachu cyffuriau, fel arfer drwy linellau sirol. Yn rhanbarthol, mae hyrwyddo diogelu cyd-destunol er mwyn gweithio hefo plant a phobl ifanc sy'n agored i gam-fanteisio a/neu gaethwasiaeth fodern yn flaenoriaeth o fewn Strategaeth Trais Difrifol Gogledd Cymru.

4.6.2. Mae'r Heddlu yn codi ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern ymysg awdurdodau a busnesau ar draws y rhanbarth, ac yn cynnal ymweliadau rheolaidd â gwestai a safleoedd gwyliau ac yn darparu llenyddiaeth mewn clinigau a meddygfeydd iechyd rhywiol.

4.6.3. Rhwng Ionawr a Rhagfyr 2024, derbyniodd Heddlu Gogledd Cymru 112 o gyfeiriadau yn ymwneud â chaethwasiaeth fodern, masnachu pobl neu ecsbloetiaeth drwy'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, gyda 13 o'r rhain yn ymwneud â Gwynedd. Derbyniwyd hefyd 6 adroddiad drwy'r trefniant Dyletswydd i Hysbysu, gydag 1 yn ymwneud â Gwynedd.

4.6.4. Yn 2025, gostyngodd nifer y cyfeiriadau i 95, gyda 9 yn ymwneud â Gwynedd. Derbyniwyd 2 adroddiad drwy'r trefniant Dyletswydd i Hysbysu yn ystod y flwyddyn, ac nid oedd unrhyw un yn ymwneud â Gwynedd.

4.7. **Gwrthderfysgaeth**

4.7.1. Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal Grŵp Mannau Cyhoeddus: Parodrwydd i Amddiffyn a Diogelu, yn ogystal â bod yn aelod o'r grwpiau cyffelyb rhanbarthol, er enghraifft, Bwrdd Contest. Nod y grŵp yw cryfhau diogelwch mewn mannau cyhoeddus, gwella parodrwydd i ymateb i ddigwyddiadau, a chodi ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid er mwyn cadw cymunedau'n ddiogel.

4.7.2. Yn ystod 2025/26, parhawyd â gwaith paratoi i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth Martyn's Law, a ddisgwylir i ddod i rym yn 2027; bu'r Grŵp hefyd yn ystyried y Polisi Llogi lleoliadau yn ystod y flwyddyn, ynghyd â materion diogelwch penodol a godwyd gan Gymdeithas y Deillion Gogledd Cymru mewn perthynas â llwybrau beicio.

4.7.3. Yn 2024/25 bu i'r Cyngor ymgymryd â phroses sicrwydd ansawdd gyda'r Swyddfa Gartref er mwyn cwrdd â gofynion statudol o dan y ddyletswydd Atal. Adnabuwyd cryfderau fel yr ymdrech i gyd-weithio'n rhanbarthol a'r gwaith o reoli risg mewn perthynas â radicaleiddio.

4.7.4. O ganlyniad i'r broses yma, derbyniwyd dau argymhelliad pellach, sef: datblygu Polisi Llogi lleoliadau a datblygu strategaeth hyfforddiant atal. Fel nodir uchod mae'r Polisi Llogi wedi derbyn sylw yn ystod y flwyddyn, ac unwaith mae'r adnoddau hyfforddiant Cymraeg ar gael bydd modd gweithredu'r cynllun hyfforddiant "atal" newydd.

4.8. **Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)**

4.8.1. Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn gyfrifol am brosesu gwiriadau troseddol. Pwrpas gwiriadau DBS yw cynorthwyo cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio a thrwyddedu mwy diogel, ond dim ond un rhan o arfer recriwtio yw gwiriad. Pan fydd gwiriad wedi'i brosesu gan y DBS a'i gwblhau, bydd yr ymgeisydd yn derbyn tystysgrif DBS.

4.8.2. Bu'r Grŵp Gweithredol yn ymgymryd â gwaith sylweddol i wirio, herio ac ailymweld â'r drefn gorfforaethol o ran y DBS. O ganlyniad, mae Adrannau bellach yn perchnogi mwy ar y trefniadau DBS ac mae hyn wedi trawsnewid sut mae'r Grŵp Gweithredol yn adrodd ar ei gydymffurfiaeth ar ddadleniadau adrannol.

4.8.3. Mae'r sefyllfa DBS wedi sefydlogi yn ystod y flwyddyn, gyda'r rhan fwyaf o adrannau yn cyflawni 100% o gydymffurfiaeth, sef bod gan bob aelod o staff sydd angen DBS ar gyfer eu rôl dystysgrif gyfredol. Lle nad oes gan unigolion DBS cyfredol, darperir eglurhad clir i'r Grŵp, ac hynny yn bennaf yn gysylltiedig ag absenoldebau hirdymor neu gyfnodau mamolaeth. Mae adrannau'n parhau i fonitro'r sefyllfa'n barhaus er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus a rheoli unrhyw fylchau yn amserol.

4.9. **Hyfforddiant Diogelu Corfforaethol**

4.9.1. Yn ystod y flwyddyn, bu ymdrech sylweddol i gynyddu ymwybyddiaeth a chyfraddau cwblhau hyfforddiant diogelu ar draws y sefydliad. Mae'r gwaith hwn wedi arwain at gynnydd yn nifer y staff sy'n cwblhau'r hyfforddiant mandadol.

4.9.2. Ar 31 Mawrth 2025, roedd **36.4%** o staff y Cyngor wedi cwblhau'r e-fodiwl diogelu. Erbyn 31 Mawrth 2026, roedd y ganran hon wedi mwy na dyblu, gyda **75.9%** o staff y Cyngor bellach wedi cwblhau'r e-fodiwl. Dylid nodi bod y cynnydd hwn yn rhannol oherwydd newid yn y ffordd y caiff y data eu hadrodd, gan fod ffigurau 2025 yn cynnwys athrawon ysgolion tra bod ffigurau 2026 yn eu heithrio.

4.9.3. Anogir pob Cynghorydd i fynychu hyfforddiant diogelu (hyfforddiant penodol – Grŵp F). Mae **87% o Gynghorwyr** wedi cwblhau'r hyfforddiant ac bydd sesiwn pellach yn cael ei chynnal yn fuan yn 2026/27.

4.9.4. Er bod cwblhau'r hyfforddiant yn bwysig, mae sicrhau lefel briodol o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ymysg staff ac aelodau yn bwysicach fyth. Yn dilyn cais gan y Grŵp Gweithredol Diogelu, cynhaliwyd archwiliad mewnol i asesu lefel ymwybyddiaeth gweithwyr maes y Cyngor o'r Polisi Diogelu. Amlygodd yr archwiliad fod angen gwneud mwy o waith i sicrhau dealltwriaeth gyson o'r Polisi a'r gweithdrefnau cysylltiedig.

4.9.5. Penodwyd Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol i sicrhau fod pob aelod staff Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran diogelu. Bydd y rôl yn hyrwyddo negeseuon allweddol bod diogelu yn fusnes i bawb ac yn addysgu staff i fod yn fwy gwyliadwrus ac i hybu hyder wrth adrodd am bryderon.

4.9.6. Gweithia'r Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol i gynyddu'r nifer o staff sy'n cwblhau'r hyfforddiant diogelu mandadol. Er bod staff mewn swyddfeydd wedi'u cyfarwyddo i ddefnyddio'r platfform e-dysgu, yr her yw cyrraedd aelodau staff rheng flaen sydd heb fynediad i systemau Technoleg Gwybodaeth y Cyngor. I oresgyn yr her hon, paratowyd fideo cynhwysfawr fydd yn cael ei gyflwyno i'r gweithlu mewn sesiynau torfol hawdd ei gyrraedd ac yn hawdd ei ddeall.

4.9.7. Mae'r Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol hefyd yn cyd-weithio efo'r Grŵp Gweithredol Diogelu i ddatblygu tudalen ganolog ar y mewnrwyd gyda'r holl wybodaeth hyrwyddo/gysylltiedig i'r gweithlu ynghylch diogelu. Mae hyn yn cynnwys y Polisi Diogelu Corfforaethol, manylion Swyddogion Diogelu Dynodedig, hyfforddiant mandadol a chysylltiadau ar gyfer cymorth.

4.9.8. Bwriedir cynnal archwiliad mewnol pellach yn ystod hydref 2026 er mwyn asesu effeithiolrwydd y trefniadau presennol a lefel y ddealltwriaeth ar draws y sefydliad. Bydd hyn hefyd yn gyfle i werthuso a yw'r ymyraethau newydd wedi cynyddu ymwybyddiaeth ymysg staff, ac i adnabod unrhyw fylchau pellach lle bydd angen darparu cymorth neu arweiniad ychwanegol.

## 5. GWETHIO MEWN PARTNERIAETH

5.1. Er bod y Panel Strategol Diogelu yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau corfforaethol yn ymwneud â materion diogelu o fewn Gwynedd, mae cyd-weithio hefyd yn digwydd ar lefel rhanbarthol drwy'r **Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru** ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion. Mae'r rhain yn Fyrddau Statudol gydag aelodaeth draws-asiantaethol, sydd â chyfrifoldebau penodol a chyfreithiol. Mae gwybodaeth bellach am waith y Byrddau i'w weld yma - https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/

5.2. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd adolygiad gan Lywodraeth Cymru i lywodraethiant a threfniadau goruchwylio diogelu. Mae'r adolygiad cenedlaethol hwn yn canolbwyntio ar ba mor addas yw'r strwythurau presennol, gan archwilio rolau'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, sut mae'r cyrff hyn yn cydweithio â rheoleiddwyr ac arolygiaethau, a pha welliannau sydd eu hangen i gryfhau atebolrwydd a llywodraethiant. Disgwylir adroddiad terfynol yn ystod gwanwyn 2026.

5.3. Mae **Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn** hefyd wedi dangos bod gweithio mewn partneriaeth ar draws ffiniau siroedd yn profi'n llwyddiant. Mae gan nifer

o sefydliadau ddyletswydd statudol i fod yn rhan o'r bartneriaeth, gan gynnwys yr Awdurdodau Lleol, yr Heddlu, gwasanaethau Prawf, y gwasanaeth Tân ac Achub a'r Bwrdd Iechyd. Mae gwybodaeth am bob agwedd ar ddiogelwch cymunedol y mae'r Cyngor yn ymwneud ag o ar ein gwefan.

## 6. Y DYFODOL

6.1. O ran blaenoriaethau'r Panel ar gyfer y flwyddyn i ddod, bwriedir canolbwyntio ar y blaenoriaethau a ganlyn:

- Gweithredu a monitro ymateb y Cyngor i argymhellion adroddiad *Cyfiawnder Drwy Ein Dewrder*, gan sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu gwreiddio ar draws y sefydliad.
- Cryfhau ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a diwylliant diogelu corfforaethol ar draws pob gwasanaeth, gan gynnwys cynyddu cwblhau hyfforddiant a sicrhau bod staff yn hyderus i weithredu ar bryderon.
- Cyhoeddi fideo diogelu er mwyn ei gwneud yn hawdd a hygyrch i weithwyr maes gwblhau'r hyfforddiant mandadol.
- Cynyddu capasiti o fewn y gwasanaethau diogelu, yn enwedig mewn perthynas â gwaith Rhan 5, diogelu oedolion a'r trefniadau DoLS.
- Datblygu ymhellach y gwaith partneriaeth rhanbarthol a lleol gyda'r Heddlu, ysgolion, y Bwrdd Iechyd, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill er mwyn ymateb yn fwy effeithiol i risgiau diogelu cymhleth.
- Parhau i gryfhau trefniadau llywodraethiant, atebolrwydd a chraffu corfforaethol ym maes diogelu, gan gynnwys rôl y Panel Strategol Diogelu a'r Grŵp Gweithredol Diogelu.
- Cynnal archwiliadau mewnol pellach i asesu effeithiolrwydd trefniadau newydd ac i adnabod unrhyw fylchau pellach mewn ymwybyddiaeth, hyfforddiant neu ymarfer.

# ADRODDIAD DIOGELU GWYNEDD 2025/26




*Fersiwn Plant a Phobl Ifanc*

# Beth yw diogelu?

Mae diogelu yn golygu gwneud yn siŵr bod plant, pobl ifanc ac oedolion bregus yn ddiogel rhag camdriniaeth. Mae gan Gyngor Gwynedd gyfrifoldeb i helpu i gadw pobl yn ddiogel.

Mae gwahanol fathau o gamdriniaeth:

**Emosiynol**

Pan fydd rhywun yn gwneud i berson deimlo'n ofnus, yn ddiwerth neu'n anhapus am gyfnod hir.

**Corfforol**

Pan fydd rhywun yn brifo corff plentyn neu oedolyn bregus yn fwriadol.

**Esgeulustod**

Pan nad yw person yn cael y gofal, y bwyd, y dillad neu'r gefnogaeth sydd eu hangen arno.

**Rhywiol**

Pan fydd rhywun yn ymddwyn mewn ffordd rywiol tuag at blentyn / oedolyn bregus neu'n gwneud iddynt gymryd rhan mewn rhywbeth amhriodol.

**Camfanteisio**

Pan fydd rhywun yn defnyddio neu'n dylanwadu ar berson arall mewn ffordd annheg er eu budd eu hunain.

**Cam-drin Domestig**

Pan fydd rhywun yn cael ei wneud i deimlo'n ofnus neu'n anniogel gartref oherwydd ymddygiad rhywun arall.

***Nid yw camdriniaeth bob amser yn hawdd ei gweld. Mae'n bwysig dweud wrth oedolyn dibynadwy os ydych yn poeni am eich hun neu rywun arall.***

# Sut mae Cyngor Gwynedd yn helpu i gadw pobl yn ddiogel?

**Mae cadw pobl yn ddiogel yn gyfrifoldeb i bawb sy'n gweithio i Gyngor Gwynedd.**

Mae grŵp o Gynghorwyr a Uwch Swyddogion ar draws y Cyngor yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod diogelu. Enw'r grŵp yma yw **Panel Strategol Diogelu.**



Gwaith y **Panel Strategol Diogelu** ydi:

- Gwneud yn siŵr bod rheolau a pholisïau diogelu yn addas.
- Gwneud yn siŵr bod staff yn cael hyfforddiant.
- Edrych ar bryderon a risgiau diogelu.
- Dysgu o bethau sydd wedi digwydd yn y gorffennol.
- Cynllunio sut i wella pethau yn y dyfodol.

Cadeirydd y Panel Strategol Diogelu yw'r **Cynghorydd Dewi Jones, Aelod Cabinet Addysg.** Ei rôl ef yw arwain cyfarfodydd y Panel.



# Gwrando a Gwneud Pethau’n Well

Mae adroddiad pwysig o’r enw *Cyfiawnder Drwy Ein Dewrder* wedi dangos bod angen gwneud mwy i helpu cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys yr angen i:

- Wrando ar lais plant a pobl ifanc
- Wella’r ffordd rydym yn ymateb i bryderon diogelu
- Wneud yn siŵr bod staff yn deall eu cyfrifoldebau a beth i'w wneud pan fydd pryder diogelu yn codi.
- Wella’r ffordd mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid fel yr Heddlu a'r Bwrdd Iechyd.

Mae llawer o gynnydd da eisoes wedi'i wneud, ac mae grŵp o arbenigwyr (sy’n cael eu galw yn Bwrdd Ymateb) yn helpu i wneud yn siŵr bod y gwaith yn parhau.

**Mae mwy o wybodaeth am waith y Bwrdd Ymateb isod:**

Cliciwch yma i weld gwaith y Bwrdd Ymateb.



# Diogelu mewn Ysgolion

## TIM DIOGELU A LLESIANT YSGOLION

Mae Tîm Diogelu a Lles Addysg Gwynedd yn cefnogi ysgolion i gadw disgyblion yn ddiogel. Yn ystod y flwyddyn, penodwyd aelod newydd i'r tîm er mwyn rhoi mwy o gefnogaeth i ysgolion ar draws y sir.

Cliciwch yma am fwy o wybodaeth am y tîm.

## POSTERI NEWYDD

Mae Tîm Diogelu a Lles Addysg Gwynedd wedi creu posteri syml a chanllawiau cam wrth gam i helpu disgyblion a staff wybod beth i'w wneud os oes pryder am ddiogelwch plentyn. Mae pob ysgol yng Ngwynedd wedi derbyn y rhain.

## YMYRIAD DIOGEL

Mae gan bob ysgol bolisi i helpu cadw disgyblion a staff yn ddiogel a chefnogi ysgolion i ddelio â sefyllfaoedd anodd mewn ffordd deg a diogel. Enw'r Polisi yma ydi Bolisi Ymyriad Diogel (Grym Rhesymol).




**100%**

o ysgolion wedi rhoi hyfforddiant diogelu i **pob** aelod o staff



**Pob Ysgol**

wedi cael ymweliad i wirio bod y trefniadau cywir mewn lle i gadw plant yn ddiogel



**8,069**
o gyfeiriadau i wasanaethau plant yn ystod y flwyddyn

**98%**
o gyfeiriadau i'r tîm derbyn wedi ymateb iddynt o fewn 24 awr

**293**
o blant mewn gofal

Sut mae'r Cyngor wedi helpu i gadw pobl yn ddiogel yn ystod y flwyddyn?

# Gwasanaethau Plant

## MWY O BLANT A TEULUOEDD ANGEN HELP

Mae Gwasanaethau Plant wedi derbyn tua 155 o geisiadau am gymorth bob wythnos yn rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026. **Bum mlynedd yn ôl, roedd tua 6,000 o gyfeiriadau at y gwasanaeth mewn blwyddyn. Heddiw, mae dros 8,000.**

Mae'r tîm wedi bod yn brysur yn gwneud yn siŵr bod y gefnogaeth gywir ar gael pan fo'i hangen.

## CARTREFI I BLANT MEWN GOFAL

Nid yw pob plentyn yn gallu byw gartref gyda'i deulu. Pan fydd hyn yn digwydd, mae'r Cyngor yn helpu i ofalu amdanynt. Mae cartrefi newydd wedi agor ym Morfa Bychan a Deiniolen er mwyn helpu plant i aros yn agos at bobl a lleoedd sy'n bwysig iddynt.

## CRYFHAU'R TÎM DIOGELU

Yn ystod y flwyddyn, cafwyd mwy o bryderon am oedolion sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli gyda phlant. Gelwir y math hwn o bryder yn ymchwiliad Rhan 5. I helpu i ymateb i hyn, mae'r Cyngor wedi rhoi mwy o arian i'r Tîm Diogelu fel y gallant gyflogi  mwy o staff.

# Gwasanaethau Oedolion



## CYFEIRIADAU DIOGELU

Mae'r Cyngor yn helpu i ddiogelu oedolion sydd angen cymorth ychwanegol oherwydd eu hoedran, iechyd, anabledd neu amgylchiadau personol.

Yn ystod y flwyddyn, derbyniwyd 792 o adroddiadau lle roedd angen edrych ar bryderon am ddiogelwch neu les oedolyn. Yn yr **holl achosion hyn**, llwyddwyd i gymryd camau i reoli'r risg a chefnogi'r unigolion dan sylw.



**792**

o gyfeiriadau diogelu oedolion

## MONITRO GWASANAETHAU

Mae staff yn ymweld yn rheolaidd â chartrefi gofal ac yn monitro gwasanaethau i helpu sicrhau bod pobl yn cael gofal diogel o ansawdd da.



**94%**

o gyfeiriadau diogelu oedolion ymatebwyd iddynt o fewn 7 diwrnod

## HAWLIAU UNIGOLION I RYDDID

Mae'r Cyngor yn gweithio i sicrhau bod oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth yn ddiogel, a bod penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud er eu budd gorau.

Sut mae'r Cyngor wedi helpu i gadw pobl yn ddiogel yn ystod y flwyddyn?

# Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol



## DYSGU AM BERTHNASAU IACH

Mae staff wedi derbyn hyfforddiant i'w helpu i gael sgyrsiau cadarnhaol gyda phlant a phobl ifanc am bynciau fel perthnasau iach, diogelwch ar-lein, hunanhyder a llesiant.

## CEFNOGAETH I BOBL SYDD YN PROFI CAMDRINIAETH

Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn gweithio i helpu pobl i fod yn ddiogel rhag camdriniaeth, trais a bwlio mewn perthnasau. Mae sefydliadau arbenigol ar gael i helpu pobl.

Mae camerâu diogelwch hefyd wedi cael eu rhoi i helpu rhai pobl sydd mewn perygl deimlo yn ddiogel.

## RHUBAN GWYN

Mae Gwynedd yn cefnogi ymgyrch Rhuban Gwyn, sy'n annog pawb i chwarae eu rhan wrth herio camdriniaeth a hyrwyddo perthnasau sy'n seiliedig ar barch a charedigrwydd.



**75%**

o staff y Cyngor wedi cwblhau hyfforddiant Trais yn y Cartref

# Troseddu



Mae nifer o sefydliadau, fel y Cyngor a'r Heddlu, yn gweithio gyda'i gilydd i helpu cadw pobl a cymunedau yn ddiogel.

Eleni, cafwyd arian i gefnogi prosiectau newydd i helpu plant a phobl ifanc, gan gynnwys:

- **"Peidiwch â Dwyn Fy Nyfodol"** - sesiynau mewn ysgolion i helpu pobl ifanc ddeall pwysigrwydd perthnasau iach, parch a diogelwch.
- Ymgyrch codi ymwybyddiaeth am **beryglon vapes anghyfreithlon a chamfanteisio** ar blant a phobl ifanc.
- Mwy o gyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn **gweithgareddau diogel a chadarnhaol** yn eu cymunedau yn ystod gwyliau ysgol.

**3.6%**

o gynnydd yn nifer y troseddau yng Ngwynedd o gymharu â'r flwyddyn diwethaf



**Sut mae'r Cyngor wedi helpu i gadw pobl yn ddiogel yn ystod y flwyddyn?**

# Gweithlu Cyngor Gwynedd

## GWIRIADAU STAFF (DBS)

Mae'r Cyngor yn cynnal wyriadau DBS i helpu sicrhau bod pobl sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli gyda phlant ac oedolion bregus yn addas i wneud hynny.

## HYFFORDDIANT DIOGELU

Mae mwy o staff a Chynghorwyr wedi cwblhau hyfforddiant diogelu yn ystod y flwyddyn. Mae hyfforddiant newydd drwy fideo wedi ei greu i staff sy'n gweithio yn y maes, er enghraifft, gweithwyr sy'n casglu gwastraff neu glanhawyr.

## PENODI HYRWYDDWR DIOGELU

Mae Hyrwyddwr Diogelu Corfforaethol newydd wedi ei phenodi er mwyn helpu staff ddeall eu rôl wrth gadw pobl yn ddiogel a chodi ymwybyddiaeth am ddiogelu ar draws y Cyngor.

## ADOLYGU POLISI DIOGELU

Cafodd y Polisi Diogelu ei ddiweddaru i'w wneud yn haws ei ddeall a sicrhau bod pawb yn gwybod sut i godi pryderon diogelu.



**76%**

o staff y Cyngor wedi cwblhau hyfforddiant Diogelu



**87%**

o Gynghorwyr wedi cwblhau hyfforddiant Diogelu

# Beth fydd Cyngor Gwynedd yn gwneud flwyddyn nesaf?



- Byddwn yn gwneud gwelliannau yn dilyn adroddiad ***Cyfiawnder Drwy Ein Dewrder*** er mwyn helpu cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.
- **Cynyddu hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth am ddiogelu** ar draws y Cyngor fel bod holl staff y Cyngor yn deall beth yw diogelu.
- **Cyflogi mwy o weithwyr i gryfhau'r timau diogelu** er mwyn rhoi mwy o gefnogaeth i blant a pobl ifanc sydd angen help.
- Parhau i **weithio gyda'r Heddlu, ysgolion, y Bwrdd Iechyd a phartneriaid eraill** i ymateb i bryderon diogelu.

# CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **24 Medi 2026** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adroddiad Blynyddol Craffu 2025-26** |
| **Aelod:** | **Y Cynghorydd Cai Larsen, Cadeirydd y Fforwm Craffu ar gyfer 2025-26** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol)** |

**Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Derbyn yr adroddiad.

**CEFNDIR A RHESYMEG**

1. Yn unol â'r cyfansoddiad, fe gyflwynir adroddiad i gyfarfod o'r Cyngor yn ymhelaethu ar y gwaith craffu a wnaed yn ystod y flwyddyn.

2. Mae'r adroddiad sydd yn rhoi trosolwg o'r gwaith craffu a wnaed yn ystod 2025-26, wedi ei rannu o dan y penawdau yma:
   - Blaen-raglen Craffu
   - Fforwm Craffu
   - Pwyllgorau Craffu
   - Craffu'r Cynllun Ymateb - Cyfiawnder Trwy ein Dewrder
   - Ymchwiliad Craffu
   - Grwpiau Tasg a Gorffen
   - Craffu Perfformiad
   - Gwerthuso
   - Trefniadau Tracio
   - Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2025/26
   - Edrych ymlaen at 2026/27

3. Pwrpas craffu yng Ngwynedd yw 'Cyfrannu at yrru gwelliant mewn gwasanaethau i bobl Gwynedd'. Amlygir yn yr adroddiad blynyddol effaith y gwaith craffu wrth gyflawni yn unol â'r pwrpas.

4. Bydd fersiwn cryno o'r adroddiad yn cael ei lunio er mwyn cyflwyno gwaith craffu 2025-26, mewn modd hawdd i'w ddarllen a chryno.

**ATODIADAU:**

Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol Craffu 2025-26

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Trafodwyd cynnwys posib yr Adroddiad Blynyddol yng nghyfarfod y Fforwm Craffu ar 23 Chwefror 2026. Rhannwyd yr adroddiad drafft gydag aelodau Fforwm Craffu 2025/26 i dderbyn eu sylwadau.

## SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL

### Swyddog Monitro:

Mae'r pwyllgorau trosolwg a chraffu yn rhan greiddiol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu ystod y gwaith mae'r pwyllgorau yn ei gyflawni a hefyd yn cadw trosolwg o waith y Cabinet. Rwy'n fodlon fod yr hyn a gyflwynir yn dangos fod y rôl yma yn cael ei chyfarch yn briodol.

### Swyddog Cyllid Statudol:

Nid yw'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant newydd. Nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol.

# Adroddiad Blynyddol Craffu 2025-26





Cyngor Gwynedd

www.gwynedd.llyw.cymru/craffu

# Rhagair

Pwrpas craffu yng Ngwynedd yw 'Cyfrannu at yrru gwelliant mewn gwasanaethau i bobl Gwynedd'. Yn ystod 2025/26 mae aelodau craffu wedi craffu ystod o faterion gwahanol ar draws meysydd gwaith y Cyngor, drwy bwyllgorau ffurfiol, ymchwiliad craffu a grwpiau tasg a gorffen.

Er mwyn sicrhau bod trefniadau craffu yn effeithiol, mae aelodau ar draws y grwpiau gwleidyddol yn gweithio fel tîm i ymchwilio i bryderon am ansawdd gwasanaethau; gweithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd; adnabod ymarfer da a gwendidau a dal y Cabinet a'i aelodau i gyfrif.

Cyflwynwyd trefniadau newydd ar gyfer craffu perfformiad, gwerthuso craffu a chadeiryddion neu is-gadeiryddion yn mynychu cyfarfodydd Cabinet i adrodd ar drafodaethau a phenderfyniadau / argymhellion yn dilyn blaen-graffu mater cyn i'r Cabinet ddod i benderfyniad.

Mae'n holl bwysig bod cyfle i bobl Gwynedd gymryd rhan yn craffu. Derbyniwyd tri chais i graffu gan aelodau o'r cyhoedd eleni. Er mai ond un cais oedd yn amserol i'w graffu, braf oedd gweld y cais i graffu materion ariannu'r Cynllun Argyfwng Newid Hinsawdd a Natur yn arwain at argymhellion gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau.

Rhoddwyd sylw penodol i faterion diogelu gan gynnal cyfarfodydd arbennig o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi a'r Pwyllgor Craffu Gofal i graffu Cynllun Ymateb y Cyngor i adroddiad adolygiad ymarfer plant 'Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder'. Roedd gwaith yr Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion yn parhau yn 2025/26.

Bu'r maes diogelu yn flaenoriaeth amlwg yn rhaglen waith craffu 2025/26 ac yn sicr mi fydd yn parhau i fod yn 2026/27. Bydd yr ymchwiliad craffu yn adrodd i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 14 Gorffennaf 2026. Hefyd, bydd y pwyllgorau craffu yn derbyn diweddariad cynnydd ar y Cynllun Ymateb.

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'm cyd-gadeiryddion ac is-gadeiryddion craffu, aelodau craffu, aelodau cabinet, swyddogion a phawb sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith craffu yn ystod y flwyddyn.



Cynghorydd Cai Larsen, Cadeirydd y Fforwm Craffu

# Cynnwys



| | |
|---|---|
| Blaen-raglen Craffu | 3 |
| Fforwm Craffu | 4 – 6 |
| Pwyllgorau Craffu | 7 - 14 |
| Craffu'r Cynllun Ymateb – Cyfiawnder Trwy ein Dewrder | 15 - 16 |
| Ymchwiliad Craffu | 17 - 18 |
| Grwpiau Tasg a Gorffen | 19 - 20 |
| Craffu Perfformiad | 21 |
| Gwerthuso | 22 |
| Trefniadau Tracio | 23 |
| Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2025/26 | 24 |
| Edrych ymlaen at 2026/27 | 25 |

| | |
|---|---|
| Rhestr eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol | 26 - 28 |

# Blaen-raglen Craffu

Ar ddechrau'r flwyddyn Cyngor, mae aelodau'r pwyllgorau craffu yn llunio rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Rhoddwyd cyfle i holl aelodau'r Cyngor, y cyhoedd, Aelodau Cabinet a Phenaethiaid Adrannau'r Cyngor i awgrymu eitemau posib i'w craffu. Bu i'r ymgynghorwyr craffu ddod a rhestr at ei gilydd o'r holl eitemau posib a awgrymwyd fesul pwyllgor gan gynnwys gwybodaeth am yr eitemau:




Yng nghyfarfodydd anffurfiol y pwyllgorau craffu yng Ngorffennaf 2025, lluniwyd rhaglen waith ddrafft ar gyfer 2025/26 fesul Pwyllgor Craffu gan ystyried y wybodaeth yma a'r ffactorau canlynol:

- A yw'r mater yn effeithio trigolion Gwynedd?
- A yw craffu yn gallu gwneud gwahaniaeth / cael dylanwad? (pobl / gwasanaeth / perfformiad)
- A yw'r mater yn amserol i'w graffu?
- Ydi'r mater yn flaenoriaeth i'r Cyngor?
- A ydym yn glir beth ydym yn ceisio ei wella?

Cynhaliwyd trafodaethau agored gan lunio fersiwn cychwynnol o'r rhaglen waith ddrafft. Anelwyd at flaenoriaethu uchafswm o dair eitem fesul cyfarfod er mwyn sicrhau rhoi sylw haeddiannol i'r eitemau.

Y cam nesaf, oedd i'r Fforwm Craffu gymryd trosolwg o'r rhaglen waith yn ei gyfanrwydd cyn i'r pwyllgorau craffu unigol fabwysiadu eu rhaglen waith.


Mae'r blaen-raglen craffu yn rhaglen fyw. Yn ystod y flwyddyn adolygwyd cynnwys y flaen-raglen i sicrhau bod y materion cywir yn cael sylw.

Ar dudalen 26, fe welwch raglen waith 2025-26 yn ei chyfanrwydd. Mae'r adroddiad blynyddol yn manylu ar y gwaith craffu yn ystod y flwyddyn.

# Fforwm Craffu

Mae'r Fforwm Craffu yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn cymryd trosolwg o holl waith craffu'r Cyngor gyda'r aelodau (Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu), yn herio naill a'r llall i sicrhau fod y materion cywir yn cael eu blaenoriaethu.

Dyma'r cadeiryddion ac is-gadeiryddion fesul pwyllgor ar gyfer 2025/26:

| | | |
|---|---|---|
| **Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi** |  Cynghorydd Cai Larsen |  Cynghorydd Rhys Tudur |
| **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |  Cynghorydd Annwen Hughes |  Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths |
| **Pwyllgor Craffu Gofal** |  Cynghorydd Elwyn Jones |  Cynghorydd Sian Williams |

Yng nghyfarfod cyntaf y Fforwm ar 8 Medi 2025, cafodd yr aelodau gyflwyniad i rôl y Fforwm Craffu:

- Cynghori ar FLAENORIAETHU eitemau i'w craffu (mwyafrif yn craffu ffurfiol gyda nifer fechan o ymchwiliadau) gan herio sail adnabod eitemau i'w craffu.
- Adnabod y dull craffu mwyaf effeithiol o fewn yr adnoddau sydd ar gael (craffu ffurfiol / ymchwiliad)
- Adnabod eitemau sydd er gwybodaeth, gan geisio osgoi defnyddio trefniadau craffu i gyflawni'r rôl rhannu gwybodaeth.
- Asesu cyfraniadau'r pwyllgorau unigol ac asesu EFFAITH y gwaith craffu, gan adolygu ein trefniadau craffu yn barhaus.

Bu i'r aelodau ystyried y flaen-raglen craffu drafft cyn i'r pwyllgorau craffu unigol fabwysiadu eu rhaglen waith. Rhoddwyd sylw penodol i rôl y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi a'r Pwyllgor Craffu Gofal o ran craffu'r Cynllun Ymateb i Droseddu yn dilyn cyhoeddiad adroddiad yr Adolygiad Ymarfer Plant 'Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder'. Pwysleisiwyd byddai trafodaethau craffu adeiladol a thryloyw yn amlygu'r prif faterion i roi sylw iddynt ac yn arwain at adroddiadau cynnydd i'r pwyllgor craffu priodol.

Ystyriwyd argraffiadau cychwynnol aelodau craffu o'r trefniadau craffu perfformiad diwygiedig. Ers Mehefin 2025, mae'r pwyllgorau craffu yn ystyried adroddiadau perfformiad dwywaith y flwyddyn. Manylir ar y newidiadau i'r trefniadau ar dudalen 21 yr adroddiad blynyddol. Rhoddodd y Fforwm Craffu gefnogaeth i'r trefniadau newydd.

Hefyd, bu i'r Fforwm roi sêl bendith i ddefnyddio tabl gwerthuso er mwyn hunan-arfarnu'r craffu mewn cyfarfodydd pwyllgor. Defnyddir y tabl i werthuso'r craffu fesul eitem gan ddynodi'r craffu yn craffu effeithiol, craffu derbyniol neu graffu sylfaenol (gweler tudalen 22). Cytunwyd bod y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion craffu a'r ymgynghorydd craffu perthnasol yn cynnal gwerthusiad fel cam cyntaf. Cyn rhannu'r gwerthusiad gyda gweddill aelodau'r pwyllgor a'i drafod yn y cyfarfodydd anffurfiol.

Cynhaliwyd cyfarfod nesaf y Fforwm ar 17 Rhagfyr 2025. Rhoddwyd ystyriaeth i'r flaen-raglen craffu. Blaenoriaethwyd adnoddau i gefnogi a chynnal Grŵp Tasg a Gorffen Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol. Trafodwyd effeithlonrwydd y trefniadau newydd ar gyfer gwerthuso'r craffu a chraffu perfformiad yng nghyfarfodydd y pwyllgorau craffu. Daethpwyd i'r casgliad y dylid parhau gyda'r trefniadau gwerthuso newydd a pharhau i gadw golwg ar effaith craffu perfformiad yr adrannau ar lwyth gwaith y pwyllgorau.

Derbyniwyd cyflwyniad ar drefniadau cynnal Asesiad Perfformiad gan banel yn unol â'r gofyn o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Yng nghyfarfod y Fforwm ar 23 Chwefror 2026, ystyriwyd y blaen-raglen craffu er mwyn sicrhau fod y materion cywir wedi eu blaenoriaethu. Penderfynwyd ail-drefnu cyfarfodydd Pwyllgor Craffu Addysg ac

Economi (23 Ebrill 2026) a'r Pwyllgor Craffu Gofal (26 Mawrth 2026) i fis Gorffennaf oherwydd cyfnod cyn-etholiad y Senedd.

Rhoddwyd sylw i'r trefniadau craffu perfformiad gan ystyried sylwadau aelodau'r pwyllgorau ar y trefniadau. Nodwyd yr angen i drafod gwahanol opsiynau ar gyfer addasu'r trefniadau gan roi ystyriaeth i adroddiad yr Asesiad Perfformiad gan banel.

Trafodwyd cynnwys yr adroddiad blynyddol a phenderfynwyd cymryd y camau canlynol i lunio rhaglen waith craffu ar gyfer 2026/27:

1. Ystyried blaen-raglen y Cabinet a chynnal cyfarfodydd cyswllt gyda'r Pennaeth a'r Aelod Cabinet perthnasol er mwyn ceisio adnabod eitemau posib i'w craffu.
2. Anfon e-bost at holl aelodau'r Cyngor yn rhoi cyfle iddynt gyflwyno awgrymiadau o eitemau posib i'w craffu.
3. Cyfle i drigolion awgrymu eitemau posib i'w craffu drwy roi gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol ac ar wefan y Cyngor.
4. Cynnal gweithdai blynyddol ym mis Mai i ystyried yr eitemau posib a llunio rhaglen waith.
5. Ymgynghori gyda'r Penaethiaid Adran yn dilyn y gweithdai gan roi cyfle iddynt roi sylwadau o ran amserlennu'r eitemau.
6. Fforwm Craffu i gymryd trosolwg o'r flaen-raglen i sicrhau fod y materion cywir wedi eu blaenoriaethu.
7. Pwyllgorau Craffu i fabwysiadu eu rhaglenni gwaith ar gyfer 2026/27.

# Pwyllgorau Craffu

Mae tri phwyllgor craffu yng Ngwynedd gyda rôl i graffu meysydd gwaith penodol gan bob un. Eleni, sefydlwyd trefniadau newydd o ran craffu perfformiad. Mae mwy o fanylion am y trefniadau yma i'w gweld o dan y pennawd 'Craffu Perfformiad' ar dudalen 21.

Yn y rhan yma, mae gwybodaeth am ba feysydd gwaith mae'r gwahanol bwyllgorau yn gyfrifol am ei graffu a'r eitemau a graffwyd yn ystod 2025-26 mewn cyfarfod Pwyllgor yn ychwanegol i'r adroddiadau perfformiad a'r Cynllun Ymateb – Cyfiawnder Trwy ein Dewrder (gweler tudalen 15).

Manylir ar y rheswm dros graffu, gwerthusiad aelodau'r pwyllgor ac ymgynghorydd craffu (craffu effeithiol, craffu derbyniol neu craffu sylfaenol) ac effaith y craffu fesul eitem.

## Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi

**Adran Addysg, Adran Economi a Chymuned, Uchelgais Gogledd Cymru, Tîm Arweinyddiaeth a Chyfreithiol, Adran Gwasanaethau Corfforaethol, Adran Cyllid, Gweithrediad Mewnol y Cyngor a Partneriaethau**

### Strategaeth Economi Gwynedd

*Blaengraffu / Cynllun Strategol*

**Craffu Derbyniol**

Blaen-graffwyd y Strategaeth ar gyfer datblygu economi Gwynedd rhwng 2025 a 2035 er mwyn sicrhau bod y weledigaeth yn ddigon clir, bod manylder digonol o ran gweithrediad ac sut bwriedir mesur cynnydd ac effaith y Strategaeth.

**Effaith Craffu**

***Mynegi pryder ynghylch argaeledd grantiau i ardaloedd difreintiedig; nodi pwysigrwydd cyd-weithio ac adnabod yr angen i roi strwythur clir ar waith i adolygu'r hyn a gyflawnwyd ar ddiwedd blwyddyn yn erbyn y cynllun cyflawni.***

**Cyfundrefn Addysg Drochi**

*Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Gymraeg*

**Craffu Derbyniol**

Craffu effeithlonrwydd y ddarpariaeth drochi gan ystyried canfyddiadau Estyn a Phrifysgol Bangor a trefniadau'r model presennol o ddisgyblion yn mynychu canolfan drochi pedwar diwrnod yr wythnos.

**Effaith Craffu**

***Adnabod yr angen i lobïo Llywodraeth Cymru ymhellach am adnoddau ariannol ychwanegol; bod angen rhoi ystyriaeth bellach i'r opsiwn o ddychwelyd at bum diwrnod a/neu ystyried hyd y cyfnod yn y canolfannau iaith, gan roi ystyriaeth i les y disgyblion; a'r angen i ymgynghori ymhellach â rhanddeiliaid a sicrhau hyblygrwydd o ran y ddarpariaeth.***

**Strategaeth Caffael**

*Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Lewyrchus*

**Craffu Derbyniol**

Craffu'r strategaeth ddrafft gan roi sylw i'r cyd-destun deddfwriaethol a sicrhau ei fod yn cyflawni gwerth am arian, budd cymdeithasol, datgarboneiddio a chefnogaeth i'r economi leol.

**Effaith Craffu**

***Amlygu i'r Aelod Cabinet materion penodol sydd angen rhoi sylw iddynt wrth weithredu'r strategaeth - gwneud popeth posibl i gadw'r budd economaidd yn lleol, cefnogi busnesau bach, cynyddu gwerth cymdeithasol a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg.***

**Strategaeth Ysgolion**

*Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Yfory*

**Craffu Effeithiol**

Craffwyd y strategaeth ddrafft i sicrhau fod y blaenoriaethau yn addas ac yn ymateb i heriau a chyfleoedd yn y maes addysg a bod gweledigaeth glir ar gyfer y dyfodol.

**Effaith Craffu**

***Argymhellion er mwyn cryfhau'r strategaeth drwy gynnwys mwy o wybodaeth am ddiogelu, tlodi, tegwch cymdeithasol, llais rhieni, ysgolion ffydd, cynhwysiad, lles staff, llywodraethiant a'r Gymraeg.***

**Budd y Cynllun Twf i Wynedd**

*Mater yn codi o graffu perfformiad*

**Craffu Derbyniol**

Craffu'r buddion mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn darparu i Wynedd, asesu gwerth am arian, effaith ar swyddi, buddsoddiad rhanbarthol, a sicrhau bod cymunedau ar draws Gwynedd yn elwa.

**Effaith Craffu**

***Datgan pryder am arafwch rhai o'r cynlluniau i aeddfedu ac am gydbwysedd buddsoddiad gwledig a threfol. Cymryd camau i wella adroddiadau i'r dyfodol - gofyn bod adroddiadau cynnydd i'r dyfodol yn cynnwys mwy o fanylder o ran y swyddi sydd wedi eu creu yn benodol yng Ngwynedd.***

**Ardoll Ymwelwyr**

*Effaith ar Wynedd*

**Craffu Effeithiol**

Craffwyd y rhesymeg dros gyflwyno Ardoll Ymwelwyr, gan ystyried yr effaith bosib ar fusnesau, ymwelwyr, cymunedau, yr amgylchedd a'r economi ymweld.

**Effaith Craffu**

***Amlygu'r angen i roi ystyriaeth lawn i'r cymhlethdodau gweithredol a'r effeithiau economaidd. Pwysleisio pe penderfynir cyflwyno ardoll ymwelwyr bod angen ymrwymiad clir ar wariant yr incwm, ymgynghori trylwyr, tryloywder o ran defnydd yr arian, a chyfathrebu eithriadau yn sensitif.***

## Pwyllgor Craffu Cymunedau

**Adran Amgylchedd, Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC, Cynllun Datblygu Lleol, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Trosedd ac Anrhefn a'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur**

**Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur: Adroddiad Blynyddol 2024/25**

*Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd*

**Craffu Effeithiol**

Craffu ar gynnydd y Cyngor tuag at wireddu ei amcanion hinsawdd a natur gan gynnwys cyrraedd y targed sero net carbon erbyn 2030.

**Effaith Craffu**

***Argymhelliad i ail-edrych ar uchelgais y Cyngor i fod yn garbon sero net erbyn 2030 a gosod targed realistig ar gyfer lleihau allyriadau carbon. Amlygwyd yr angen i barhau i ddatblygu atebion ymarferol ar gyfer trafnidiaeth, fflyd y Cyngor a datgarboneiddio adeiladau.***

### Trefniadau Graeanu a Biniau Halen

**Craffu Derbyniol**

*Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 28 Medi 2022*

Craffu effeithiolrwydd trefniadau cynnal gaeaf y Cyngor, gan gynnwys cylchdeithiau graeanu, rheolaeth biniau halen, defnydd o dechnoleg newydd a diogelwch y rhwydwaith ffyrdd.

**Effaith Craffu**

***Argymell y dylid ystyried mynediad diogel i diroedd ysgolion yn ystod tywydd garw fel rhan o'r adolygiad o gylchdeithiau graeanu.***

### Cais i graffu gan aelod o'r cyhoedd – Materion Ariannu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur

**Craffu Effeithiol**

*Sicrwydd o ran trefniadau ariannu*

Ystyried pryderon aelod o'r cyhoedd ynghylch llywodraethu, tryloywder, trefniadau blaenoriaethu prosiectau a gwariant o fewn y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur.

**Effaith Craffu**

***Rhoi sylw i lais y dinesydd gan gadarnhau bod trefniadau llywodraethu a chraffu priodol ar waith. Argymell i'r Aelod Cabinet bod angen mwy o ymgysylltu cyhoeddus a gofyn am fwy o fanylion am wariant yn yr adroddiad blynyddol er mwyn cynyddu tryloywder.***

### Adolygiad o'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur

**Craffu Effeithiol**

*Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd*

Craffu'r cynllun diwygiedig, ystyried ei uchelgais, prosiectau a'i allu i gyflawni amcanion hinsawdd a natur y Cyngor.

**Effaith Craffu**

***Croesawu'r bwriad i ailystyried targed carbon sero net 2030 yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor. Argymell y dylid cyfathrebu llwyddiannau'r cynllun, defnyddio mwy o gwestiynau agored mewn ymgynghoriadau, ac adolygu geiriad er mwyn bod yn fwy uchelgeisiol.***

## Teithio Llesol

*Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd*

**Craffu Effeithiol**

Craffu ar gynnydd cynlluniau teithio llesol, buddion, ffynonellau cyllidol a heriau yn ymwneud â chynnal a chadw'r rhwydwaith.

**Effaith Craffu**

***Argymell bod angen edrych ar wariant ar gyfer cynnal a chadw ac arbedion posibl; cynnwys cwestiynau ynghylch cynnal a chadw yn ogystal â materion lleol yn yr ymgynghoriad cyhoeddus; ac edrych ar drefniadau asesiadau risg.***

## Adroddiad Cynnydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn

*Rôl y Pwyllgor i graffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Craffu Derbyniol**

Craffu cynnydd y Bwrdd ar weithredu'r Cynllun Llesiant a monitro effaith gwaith partneriaeth ar feysydd megis tlodi, hawliau plant, y Gymraeg a bod yn drawma wybodus.

**Effaith Craffu**

***Cydnabod gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar dlodi, hawliau plant a dulliau trawma wybodus, gan roi cefnogaeth a sicrwydd i gyfeiriad y gwaith.***

## Diweddariad Blynyddol gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn

*Rôl y Pwyllgor fel Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn*

**Craffu Derbyniol**

Craffu ar waith y Bartneriaeth i atal trosedd ac anrhefn, hyrwyddo diogelwch cymunedol, mynd i'r afael â thrais, camdriniaeth domestig, troseddau cyfundrefnol a diogelu pobl fregus.

**Effaith Craffu**

***Cymryd camau i wella adroddiadau i'r dyfodol - mwy o ddata perfformiad a map yn amlygu lleoliad troseddau. Gofyn am fwy o wybodaeth am brosiectau atal trais er mwyn derbyn sicrwydd. Cefnogaeth i gyflymu'r gwaith o sicrhau achrediad "Cyngor Trawma Wybodus" i'r Cyngor.***

**Gwasanaethau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu**

*Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd*

**Craffu Effeithiol**

Craffu perfformiad y gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu, cyrraedd targed ailgylchu Llywodraeth Cymru, effeithlonrwydd trefniadau gweithredol a datblygiad y Strategaeth Wastraff newydd.

**Effaith Craffu**

***Pwysleisio'r angen i gynyddu addysg ac ymwybyddiaeth am ailgylchu. Argymell y dylid ystyried cyflwyno cosbau ariannol am fethu ag ailgylchu'n briodol er mwyn cefnogi gwell perfformiad ac osgoi risgiau ariannol i'r Cyngor. Argymhellion fydd o gymorth i'r Cyngor gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o ailgylchu 70% o wastraff.***

**Llwybrau**

*Sicrwydd o ran gweithrediad*

**Craffu Derbyniol**

Craffu cyflwr, hygyrchedd a rheolaeth rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus Gwynedd, gan ystyried adnoddau, cynnal a chadw ac effaith newid hinsawdd.

**Effaith Craffu**

***Amlygu'r angen i flaenoriaethu adnoddau yn seiliedig ar ddefnydd llwybrau, a gwella hygyrchedd a mynediad i bawb drwy fewnbwn rhanddeiliaid perthnasol.***

# Pwyllgor Craffu Gofal

**Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, Iechyd a'r Adran Tai ac Eiddo**

**Adroddiad Blynyddol 2024-25 - Gweithdrefn Cwynion, Ymholiadau a Diolchiadau – Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Adran Oedolion**

*Sicrwydd o ran y trefniadau ar gyfer delio gyda chwynion ym maes gwaith gofal*

**Craffu Derbyniol**

Craffu trefniadau'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant o ran delio â chwynion, ymholiadau a chanmoliaeth, a defnyddio'r wybodaeth i wella gwasanaethau.

**Effaith Craffu**

***Sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i graffu ar gwynion, ymholiadau a diolchiadau yn fanylach, er mwyn adnabod gwersi a chyfleoedd pellach i wella gwasanaethau.***

**Rhyddhau o'r Ysbyty**

*Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar*

**Craffu Derbyniol**

Craffu'r trefniadau aml-asiantaeth sy'n cefnogi pobl i ddychwelyd adref yn ddiogel ac yn amserol ar ôl cyfnod yn yr ysbyty, gan hybu annibyniaeth a lleihau pwysau ar wasanaethau.

**Effaith Craffu**

***Amlygu'r angen i ehangu'r ddarpariaeth y tu hwnt i Ysbyty Gwynedd er mwyn gwasanaethu trigolion sy'n dychwelyd o ysbytai eraill. Gofyn am adroddiad cynnydd ymhen 18 mis i asesu'r canlyniadau.***

**Cydweithio gyda'r gymuned**

*Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar*

**Craffu Derbyniol**

Craffu ar fodel cydweithio cymunedol Dyffryn Nantlle sydd wedi'i gynllunio i helpu pobl i gael cefnogaeth yn lleol ac atal galw uwch ar wasanaethau iechyd a gofal.

**Effaith Craffu**

***Cefnogi'r dull gweithredu ac annog gweithredu'r cynllun mewn rhannau eraill o Wynedd, gan gydnabod potensial y model i gryfhau gwytnwch cymunedol a chefnogaeth ataliol.***

**Tai Gwag**

*Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Glyd*

**Craffu Sylfaenol**

Craffu ar waith y Cyngor i ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd, cynyddu'r stoc dai leol a chefnogi amcanion y Cynllun Gweithredu Tai.

**Effaith Craffu**

***Derbyn sicrwydd ac amlygu'r angen i barhau i fynd i'r afael â thai gwag hirdymor a'u heffaith ar gymunedau a'r Gymraeg.***

**Strategaeth Cadw Teuluoedd gyda'i gilydd**

*Y ddarpariaeth bresennol a'r adnoddau sydd ar gael i wireddu'r strategaeth*

**Craffu Derbyniol**

Craffu ar ddull ataliol yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd o gefnogi teuluoedd yn gynnar er mwyn osgoi argyfwng, lleihau'r angen am ofal statudol a chadw plant yn ddiogel gartref lle bo hynny'n bosibl.

**Effaith Craffu**

***Amlygodd y craffu pwysigrwydd y gwasanaethau ataliol a'r risg sy'n deillio o ddibyniaeth ar grantiau tymor byr. Gofynnodd y pwyllgor am fwy o wybodaeth ar gydweithio gyda'r Adran Addysg; sicrwydd bod gwasanaethau'n parhau yn ystod cyfnodau mamolaeth a sut mae hyn yn cael ei gyflawni.***

**Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid**

*Sicrwydd bod y gwasanaeth yn effeithlon*

**Craffu Derbyniol**

Craffu perfformiad a threfniadau Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn, gan ganolbwyntio ar atal troseddu, ymyrraeth gynnar a chefnogi pobl ifanc drwy ddull "Plentyn yn Gyntaf".

**Effaith Craffu**

***Derbyn sicrwydd bod y gwasanaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth weithredu argymhellion arolygiad. Amlygu diffyg darpariaeth iaith a lleferydd ar gyfer pobl ifanc yn y system gyfiawnder a gofyn i'r Aelod Cabinet ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i bwyso am adnoddau ychwanegol i ddarparu'r gefnogaeth iaith a lleferydd.***

**Tîm 16+**

*Sicrwydd o ran y ddarpariaeth ar gyfer rhai 16 oed+*

**Craffu Derbyniol**

Craffu'r gefnogaeth a ddarperir i bobl ifanc 16-25 oed sydd mewn gofal neu wedi gadael gofal, gan gynnwys llety, addysg, llesiant a datblygu annibyniaeth.

**Effaith Craffu**

***Derbyn sicrwydd am y trefniadau cymorth a'r gwaith aml-asiantaeth i gefnogi pobl ifanc bregus. Amlygu'r heriau sy'n gysylltiedig â llety, digartrefedd a chynorthwyo ceiswyr lloches ifanc sy'n derbyn cefnogaeth gan y gwasanaeth.***

Gellir gweld rhaglenni a chofnodion cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu o dan y linc yma – www.gwynedd.llyw.cymru/craffu

# Craffu'r Cynllun Ymateb

Mabwysiadwyd Cynllun Ymateb i droseddu cyn-bennaeth ysgol gan y Cabinet ar 21 Ionawr 2025. Cyhoeddwyd adroddiad yr Adolygiad Ymarfer Plant 'Cyfiawnder Trwy ein Dewrder' ar 4 Tachwedd 2025. Bu i Gynllun Ymateb y Cyngor gael ei addasu mewn ymateb i'r adroddiad.

Cynhaliwyd cyfarfodydd arbennig o'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi a'r Pwyllgor Craffu Gofal ym mis Ionawr 2026. Craffwyd y Cynllun diwygiedig er mwyn sicrhau ei fod yn ymateb yn briodol a chyflawn i'r adroddiad 'Cyfiawnder trwy ein Dewrder' ac i graffu'r rhaglen waith.

Ystyriwyd cynnwys y Cynllun Ymateb gan roi sylw i'r ffrydiau gwaith:



**Ffrwd Gwaith 1**
**Llais y Plentyn a Chefnogi Dioddefwyr**



**Ffrwd Gwaith 2**
**Rheoli Honiadau a Phryderon am Oedolion sy'n gweithio gyda Phlant**



**Ffrwd Gwaith 3**
**Hyfforddiant a Pholisïau**



**Ffrwd Gwaith 4**
**Llywodraethu Ysgolion**



**Ffrwd Gwaith 5**
**Arferion Cyfyngol**



**Ffrwd Gwaith 6**
**Cynllunio Argyfwng ac Ymateb i Argyfwng**



**Ffrwd Gwaith 7**
**Ysgol Friars**

Bu i'r pwyllgorau craffu wneud **37 argymhelliad** i'r Cabinet. Mae'r holl argymhellion a chofnodion cyfarfodydd Pwyllgor Craffu Gofal (13 Ionawr 2026) a'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi (19 Ionawr 2026) i'w gweld ar wefan y Cyngor.

Yn ogystal â'r pwyllgorau craffu bu i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y Cynllun Ymateb. Cyflwynwyd adroddiad i gyfarfod arbennig o'r Cyngor Llawn ar 5 Chwefror 2026 a rhoddwyd cyfle i gadeiryddion y pwyllgorau gyfleu'r trafodaethau ac argymhellion.

Dyma grynodeb o'r addasiadau i'r Cynllun Ymateb o ganlyniad i'r craffu:

- Nodi na fyddai'r drws yn cau petai dioddefwr yn dymuno derbyn pecyn cefnogaeth i'r dyfodol.
- Cyfeiriad at arolwg Estyn yn 2023 wedi ei dynnu.
- Lles plant a phobl ifanc wedi ei ychwanegu i ddisgrifiad Ffrwd Gwaith 7.
- Rhoi sylw i lais y teulu yn ogystal â llais y plentyn mewn trefniadau diogelu fel rhan o Ffrwd Gwaith 1.
- Ychwanegu enw cyswllt benywaidd allanol i bosteri rhannu gwybodaeth am bryderon a sicrhau bod manylion cyswllt ar gael ar wefannau ysgolion a gwefan y Cyngor.
- Nifer o addasiadau yn ymwneud â hyfforddi, grymuso a newid ymddygiad ar bynciau megis meithrin perthnasoedd amhriodol '*grooming*' a defnydd o rym rhesymol.
- Cyflwyno trefniadau i fesur fod hyfforddiant yn newid ymddygiad a phenderfyniadau yn ymarferol.
- Trefniadau mesur sut mae llais y plentyn a phrofiad dioddefwyr yn dylanwadu ar benderfyniadau a chanlyniadau fel rhan o Ffrwd Gwaith 1.
- Sylw priodol i blant sy'n wynebu heriau ac osgoi rhagfarn ddiarwybod.
- Ystyried addasrwydd oedolion i weithio gyda phlant ac oedolion bregus fel rhan o drefniadau diogelu.
- Awdit o honiadau Rhan 5, Gweithdrefnau Diogelu Cymru, wedi ei ymestyn i gyfnod pum mlynedd.
- Adolygu trefniadau i wirio cofnodion diogelu.
- Sicrhau tryloywder drwy ryddhau cymaint o wybodaeth a phosib.

Mabwysiadodd y Cabinet y Cynllun Ymateb ar ei newydd wedd yn ei gyfarfod ar 10 Mawrth 2026. Roedd cadeiryddion y pwyllgorau craffu yn bresennol yn y cyfarfod i gyfleu trafodaethau ac argymhellion cyfarfodydd arbennig y pwyllgorau craffu.

Er mwyn derbyn sicrwydd bod cynnydd ac i dderbyn cadarnhad o'r hyn sydd wedi ei wneud mewn ymateb i argymhellion y pwyllgorau craffu. Bydd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi a'r Pwyllgor Craffu Gofal yn derbyn diweddariad yn 2026/27.

# Ymchwiliad Craffu

Bwriad Ymchwiliad Craffu yw asesu effaith polisïau cyfredol a/neu berfformiad gwasanaethau. Mae hyn yn cael ei wneud drwy gasglu tystiolaeth angenrheidiol sydd yn cynnwys gwrando ar brofiadau pobl.

Mabwysiadodd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi brîff ar gyfer **Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion** ar 13 Chwefror 2025. Adroddwyd ar waith yr ymchwiliad hyd at ddiwedd Ebrill 2025 yn adroddiad blynyddol 2024-25.

Y prif gwestiwn mae'r ymchwiliad yn ei gyfarch yw:

**'A yw trefniadau diogelu yn ysgolion y sir yn briodol ac yn cael eu gweithredu'n gyson?'**

Mae'r aelodau canlynol wedi bod yn ymgymryd â gwaith yr ymchwiliad:

- Y Cynghorwyr Cai Larsen (Cadeirydd), Dawn Lynne Jones, Gwynfor Owen a Richard Glyn Roberts
- Aelod Cyfetholedig - Sharon Roberts (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon)

Yn ystod Mai i Orffennaf 2025 cynhaliwyd ymweliadau i 11 ysgol er mwyn deall sut mae trefniadau diogelu yn cael eu gweithredu mewn ysgolion. Bu i'r aelodau a swyddog craffu ymweld â sampl a oedd yn cynnwys chwe Ysgol Gynradd, tair Ysgol Uwchradd, 1 Ysgol Arbennig ac 1 Ysgol Ddilynol.

Cynhaliwyd sgyrsiau agored anffurfiol gyda Phenaethiaid, Personau Diogelu Dynodedig, Dirprwyon Diogelu Dynodedig, Athrawon, Staff Ategol ynghyd â Chadeiryddion a Llywodraethwyr Diogelu Dynodedig.

**69** Staff

**19** Llywodraethwyr

**Cyfanswm = 88**

Yn ogystal â chynnal sgyrsiau bu aelodau yn cymryd sylw o amgylchedd a diwylliant diogelu'r ysgolion. Ar derfyn yr ymweliadau bu i aelodau drafod a chofnodi eu hargraffiadau.

Gwerthfawrogwyd yn fawr y croeso a dderbyniwyd gan yr ysgolion a'r trafodaethau agored a oedd yn rhoi mewnwelediad i'r aelodau o sut mae trefniadau diogelu yn cael eu gweithredu yn ymarferol mewn ysgolion.

Cynhaliwyd cyfarfod i drafod argraffiadau cychwynnol yr aelodau o'r ymweliadau ar 22 Gorffennaf 2025. Trafodwyd canfyddiadau ac argymhellion posib yn deillio o'r ymweliadau i'r ysgolion ar 10 Medi 2025.

Y themâu a oedd yn codi wrth drafod canfyddiadau'r aelodau oedd:

**Diogelu** | **Materion o dan y trothwy diogelu** | **Systemau**

**Hyfforddiant** | **Llywodraethwyr** | **Staff** | **Rhieni**

**Disgyblion** | **Presenoldeb** | **Materion Gweledol / Adeilad**

**Cyswllt gyda'r Adran Addysg a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd**

Yn y cyfarfodydd dilynol, rhoddwyd sylw i:

- faterion a oedd wedi codi yn sgil yr ymweliadau i'r ysgolion.
- benodi darparwr i gwblhau gwaith i glywed llais disgyblion.
- materion adnoddau dynol.
- y berthynas cydweithio rhwng yr Adran Addysg a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.
- materion asesu addasrwydd unigolyn i fod yn gweithio gyda phlant.
- argymhellion posib yn codi o gyfarfodydd yr ymchwiliad.

Mae'r angen i sicrhau bod llais disgyblion yn cael sylw haeddiannol fel rhan o'r ymchwiliad wedi bod yn ganolog i'r gwaith. Pwysleisiwyd oherwydd sensitifrwydd y sefyllfa bod angen i swyddogion proffesiynol ymgymryd â'r gwaith hwn gan fod ganddynt yr hyfforddiant a'r cymwysterau angenrheidiol i ymdrin â sefyllfa o'r fath. Penodwyd darparwr i gyflawni'r gwaith llais disgyblion ar ran yr ymchwiliad ym mis Ebrill 2026. Rhoddwyd trefniadau mewn lle i gwblhau'r gwaith yn ystod mis Mai 2026.

**Camau Nesaf....**

- Derbyn cyflwyniad ar waith clywed llais disgyblion.
- Ystyried canfyddiadau ac argymhellion y gwaith llais disgyblion.
- Dadansoddi'r dystiolaeth a gasglwyd a dod i gasgliad ar yr argymhellion sydd yn deillio o waith yr ymchwiliad.
- Llunio adroddiad drafft.
- Cyfarfod i rannu drafft terfynol adroddiad yr ymchwiliad craffu gyda'r Aelodau Cabinet a'r Penaethiaid Adran perthnasol.
- Cyflwyno adroddiad drafft yr ymchwiliad craffu i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 14 Gorffennaf 2026.

Byddwn yn adrodd ar argymhellion yr ymchwiliad craffu yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

# Grwpiau Tasg a Gorffen

Mae Grŵp Tasg a Gorffen yn edrych ar bwnc penodol mewn ychydig mwy o fanylder nag sy'n bosib ei wneud mewn cyfarfod pwyllgor ffurfiol. Gall uchafswm o 5 aelod gymryd rhan mewn grŵp tasg a gorffen.

Yn ystod 2025-26, cynhaliwyd dau Grŵp Tasg a Gorffen:

## Polisi Iaith Addysg

Cyflwynwyd y Polisi Iaith Addysg Drafft gerbron cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 10 Ebrill 2025. Yn ystod y drafodaeth awgrymwyd addasiadau posib i eiriad y polisi drafft. O ganlyniad, penderfynwyd cynnal Grŵp Tasg a Gorffen i edrych ar eiriad y Polisi gan ystyried os oedd angen gwneud awgrymiadau i'r Aelod Cabinet / Adran Addysg, ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Grŵp Tasg a Gorffen ar 2 Mehefin 2025. Roedd y Cynghorwyr Rhys Tudur (Cadeirydd), Jina Gwyrfai, Richard Glyn Roberts a Huw Rowlands yn aelodau o'r grŵp.

Rhannwyd y Polisi Iaith Addysg Drafft ac awgrymiadau'r Cynghorwyr Rhys Tudur a Richard Glyn Roberts o ran geiriad y polisi gyda'r rhaglen. Tywysodd Cadeirydd y grŵp tasg yr aelodau a'r swyddogion drwy'r awgrymiadau gan egluro'r rhesymeg tu ôl i'r addasiadau. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau wneud sylwadau a chynnig addasiadau pellach ac fe wahoddwyd swyddogion i wneud sylwadau.

Cyflwynwyd argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen o ran addasiadau i eiriad y polisi drafft ac ymateb yr Adran Addysg i'r argymhellion i gyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 19 Mehefin 2025.

Gofynnwyd i'r Aelod Cabinet Addysg ystyried yr ystod o sylwadau a gyflwynwyd gan yr aelodau yn y cyfarfod wrth lunio'r polisi terfynol.

Bu i'r Aelod Cabinet Addysg gyflwyno'r polisi drafft i'r Cabinet ar 16 Rhagfyr 2025 er mwyn ymgysylltu'n gyhoeddus ar y polisi. Roedd Cadeirydd y Pwyllgor yn bresennol yn y cyfarfod i ymhelaethu ar y drafodaeth yn y pwyllgor a'r penderfyniad.

Dyma rhai o'r addasiadau i'r Polisi drafft yn dilyn y craffu:

- Amlygu ar gychwyn y ddogfen mai argymhelliad cryf Cyngor Gwynedd fyddai fod pob ysgol yn y sir yn defnyddio geiriad Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol Cyngor Gwynedd.
- Cyfeiriadau at y categorïau iaith ysgolion sydd wedi eu diffinio yn Neddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

- Darpariaeth Cyn-ysgol – Nodi bod y cyfnod ffurfiannol hwn yn hanfodol i gyflwyno'r Gymraeg trwy chwarae a thrwy brofiadau naturiol, gan greu sylfaen gadarn i blant ddefnyddio a chaffael yr Iaith.
- Cyfnod Sylfaen hyd at Flwyddyn 2 – Nodi mai Cymraeg fydd unig gyfrwng addysg, asesu a gweithgareddau allgyrsiol y disgyblion.
- Blwyddyn 3 i 6 ac Ysgolion Uwchradd - Nodi bydd y Saesneg yn cael ei chyflwyno fel pwnc, ac fel cyfrwng rhai tasgau mewn unedau gwaith penodol a bennir gan yr ysgol, yn unol â Chynllun Cyflawni'r ysgol.
- Nodi'r gofyn o ran darpariaeth i siaradwyr newydd a'u cyfeirio at y Gyfundrefn Drochi.
- Nodi'r ysgolion trosiannol a'i wneud yn glir mai'r nod yn y tymor hir yw i bob ysgol yng Ngwynedd gyda chefnogaeth gan y Cyngor i ddod yn Ysgol Prif Iaith – Cymraeg, yn unol â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf.

Mi fydd y Cabinet yn dod i benderfyniad ar y Polisi Iaith Addysg yn ei gyfarfod ar 9 Mehefin 2026.

## Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol

Craffwyd Adroddiad Blynyddol ar Gwynion, Ymholiadau a Diolchiadau Gwasanaethau Cymdeithasol 2024-25 (Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Gofal ar 25 Medi 2025.

Penderfynwyd sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i'w drafod ymhellach. Datblygwyd brîff ar gyfer y gwaith ac fe'i mabwysiadwyd ar 18 Rhagfyr 2025 gan y Pwyllgor Craffu Gofal.

Etholwyd 5 aelod i fod yn rhan o'r grŵp tasg a gorffen sef y Cynghorwyr Menna Baines, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Angela Russell a Sian Williams.

Bu i'r Grŵp Tasg a Gorffen gyfarfod ar 27 Chwefror 2026 er mwyn:

- deall y trefniadau delio gyda chwynion
- derbyn gwybodaeth gryno am bob cwyn a dderbyniwyd yn ystod 2024-25
- cael gwell dealltwriaeth o'r rhesymau tu cefn i ddewis unigolion i gwyno yn Saesneg ac a oes modd gwneud rhywbeth i annog mwy i gwyno yn Gymraeg
- sicrhau bod cefnogaeth ddigonol o ran diogelu i staff sy'n deilio gydag achwynwyr cyson.

Cafwyd cyfle i dderbyn trosolwg o'r drefn cwynion, gwybodaeth bellach am gwynion y ddwy adran dan sylw,  y daflen cofnodi cwyn, a'r polisi achwynwyr cyson. Rhoddwyd cyfle i'r holl aelodau hefyd ofyn cwestiynau i swyddogion.

Bydd canfyddiadau ac argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Craffu Gofal ar 16 Gorffennaf 2026.

# Craffu Perfformiad

Ers Mehefin 2025, mae'r pwyllgorau craffu yn ystyried adroddiadau perfformiad dwywaith y flwyddyn. Dyma amlygu'r gwahaniaethau yn y cyn drefniadau a'r trefniadau newydd:

| Cyn Drefniadau | Trefniadau Newydd |
| --- | --- |
| Aelod Cabinet yn herio'r gwasanaeth (5 cyfarfod) | Aelod Cabinet yn herio'r gwasanaeth (4 cyfarfod) |
| 2 aelod craffu yn mynychu'r cyfarfodydd (2 waith y flwyddyn) | Adrodd i'r 3 Pwyllgor Craffu (2 waith y flwyddyn) |
| Adrodd crynodeb i'r Cabinet | Adroddiad llawn i'r Pwyllgorau Craffu |
| Aelod Cabinet a Phennaeth Adran yn atebol i'w cyd-aelodau Cabinet | Aelod Cabinet a Phennaeth Adran yn atebol i graffu |

Pwrpas y newid yma i yw:

- i fod yn fwy tryloyw a her annibynnol i'r perfformiad.
- dal Aelodau Cabinet i gyfrif yn gyhoeddus.
- aelodau'r pwyllgor i gyd yn gweld perfformiad adrannau'n gyson.
- adnabod materion i'w craffu ymhellach / mewn mwy o fanylder.
- cam olaf o ran gwelliannau i drefniadau craffu yn dilyn adroddiad Archwilio Cymru.

Derbyniodd aelodau craffu gyflwyniad i'r drefn newydd a hyfforddiant o ran yr hyn fyddai'n cael ei gyflwyno i gyfarfodydd y pwyllgorau a rôl yr aelodau ym mis Mai 2025.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu'r trefniadau, craffwyd cynnydd a chamau nesaf i wireddu prosiectau blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor 2023-28 a pherfformiad yn erbyn mesuryddion perfformiad adrannau'r Cyngor. Amlygwyd heriau, materion i'w hystyried er mwyn gwella perfformiad a daliwyd yr aelodau cabinet i gyfrif yn gyhoeddus.

Dyma enghreifftiau penodol o faterion yn codi yn dilyn craffu perfformiad:

- Adnabod yr angen i graffu budd y Cynllun Twf i Wynedd (Craffwyd 12 Chwefror 2026).
- Annog yr Adran Tai ac Eiddo i roi cyhoeddusrwydd i ddatblygiadau tai newydd arbenigol ar gyfer pobl gydag anghenion penodol.
- Gofyn i'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ddatblygu mesurydd perfformiad newydd i ddangos bod plant mewn gofal yn cael eu gweld yn gyson gan staff y Cyngor.

# Gwerthuso

Eleni, sefydlwyd trefniadau newydd ar gyfer gwerthuso craffu mewn cyfarfodydd pwyllgor.

Datblygwyd trefn lle mae aelodau'r pwyllgorau unigol yn hunan-werthuso'r craffu mewn cyfarfodydd fesul eitem.

Gwneir hyn mewn dau gam:

- Cadeirydd, Is-gadeirydd a ymgynghorydd craffu yn gwerthuso'r craffu
- Aelodau'r pwyllgor yn cael cyfle i ystyried y gwerthusiad a'i addasu os oes angen

Er mwyn sicrhau bod methodoleg yr hunan-arfarnu yn gyson ar draws y tri pwyllgor craffu, defnyddir tabl gwerthuso:

| | |
|---|---|
| **Craffu Effeithiol** | • Wedi craffu'r pwnc yn strwythuredig fel un tîm trwy gwestiynu craff, dim ail adrodd ac osgoi cwestiynau lleol.<br>• Wedi llunio argymhellion CAMPUS (**C**yraeddadwy, **A**mserol, **M**esuradwy, **P**enodol, **U**chelgeisiol a **S**ynhwyrol) i'r Aelod Cabinet, a ddylai arwain at welliannau i drigolion Gwynedd. |
| **Craffu Derbyniol** | • Wedi craffu'r pwnc yn weddol strwythuredig gyda chyfuniad o gwestiynau craff, ond rhywfaint o ail adrodd a rhywfaint o gwestiynau lleol eu naws.<br>• Wedi darparu adborth a sylwadau i'r Aelod Cabinet yn ystod y sgwrs. |
| **Craffu Sylfaenol** | • Wedi holi cwestiynau am y pwnc ac wedi deall y maes yn well.<br>• Wedi derbyn yr adroddiad a dim argymhellion penodol. |

Nodir fesul eitem os ystyrir bod y craffu yn craffu effeithiol, craffu derbyniol neu yn graffu sylfaenol a'r rhesymeg am hyn.

Mae'n bwysig bod aelodau'r pwyllgorau craffu yn adlewyrchu ar y craffu ac yn hunan-arfarnu er mwyn dysgu wrth fynd ymlaen ac adnabod sut y gellir gwella'r craffu fel bod argymhellion craffu yn arwain at yrru gwelliant mewn gwasanaethau i bobl Gwynedd.

# Trefniadau Tracio

Mae penderfyniadau ac argymhellion craffu yn cael eu tracio er mwyn sicrhau bod gweithrediad ac i ôl-rhain effaith craffu dros y byrdymor a'r hirdymor.

Dyma esiamplau o benderfyniadau / argymhellion craffu yn 2024/25 a'r hyn sydd wedi ei wneud mewn ymateb:

**Cludiant Addysg**

Gofyn i'r Aelod Cabinet Addysg gysylltu gyda Llywodraeth Cymru yng nghyswllt cyflwyno tocyn teithio am ddim i bobl ifanc 16-21 oed er mwyn lleihau'r pwysau ar y Cyngor i ddarparu trafnidiaeth am ddim, ac i hwyluso teithio i'r gwaith, i goleg neu chweched dosbarth.

→

Yr Aelod Cabinet wedi anfon llythyr at Lywodraeth Cymru yn unol â'r cais. Derbyniwyd ymateb a oedd yn adnabod ymarfer da gan Gyngor Gwynedd i ddarparu cludiant am ddim i ddysgwyr ôl-16.
Er yn cydymdeimlo gyda'r cais i Lywodraeth Cymru ei ariannu, byddai cynllun o'r fath ddim yn fforddiadwy yn yr hinsawdd ariannol bresennol.

**Cynllunio a Chymunedau Cymraeg**

Gofyn i'r Cymdeithasau Tai ddarparu data i'r Cyngor er mwyn asesu gwybodaeth am yr iaith Gymraeg ym maes cynllunio.

→


Gwasanaeth Polisi Cynllunio wedi cysylltu gyda'r cymdeithasau tai. Derbyniwyd cadarnhad gan Adra eu bod yn cynnal arolwg o sgiliau ieithyddol aelwydydd sydd wedi symud i mewn i ddatblygiadau tai diweddar. Amlygwyd yr arfer yma i Grŵp Cynefin a Thai Gogledd Cymru gan eu hannog i gynnal arolygon o'r fath yn ogystal.

Derbyniwyd gwybodaeth am ddatblygiadau tai diweddar a oedd yn cynnwys canran iaith ddewisol o Gymraeg gan y prif denant ac unrhyw denant ar y cyd ynghyd â chanran siaradwyr Cymraeg (20+ oed) yn y ward berthnasol.


Mae tracio penderfyniadau / argymhellion yn fodd i sicrhau eu bod yn cael sylw. Er nid ydynt ar bob achlysur yn arwain at newid arwyddocaol, maent yn cyfrannu at yrru gwelliant mewn gwasanaethau.

# Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2025/26


**43 eitem wedi eu craffu mewn cyfarfodydd ffurfiol (24/25 = 41; 23/24 = 43, 22/23 = 33)**




**44 aelod (allan o 59 sy'n bosib) wedi bod yn rhan o wneud y gwaith craffu**



**Canrannau - Rheswm dros Graffu**




**Nifer o weithiau mae Cadeiryddion wedi adrodd i'r Cabinet yn dilyn blaen-graffu**

**4**


**Polisi Iaith Addysg**

**Strategaeth Ysgolion**

**Cynllun Ymateb**

**Strategaeth Economi**

**Nifer o eitemau a graffwyd mewn cyfarfod**



# Edrych ymlaen at 2026/27

1. Gweithdai Craffu – Mai 2026
2. Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi - 14 Gorffennaf 2026
3. Adroddiad Grŵp Tasg a Gorffen Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Gofal – 16 Gorffennaf 2026
4. Ystyried addasiadau i drefniadau craffu perfformiad
5. Cynrychiolwyr Cymdeithasau Tai yn mynychu Pwyllgor Craffu Gofal i ateb cwestiynau aelodau
6. Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi a'r Pwyllgor Craffu Gofal i dderbyn diweddariad o ran y Cynllun Ymateb

# Rhaglen Waith Craffu 2025-26

## PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

| Dyddiad | Eitemau | Rheswm dros graffu |
|---|---|---|
| **19/6/25** | • Adroddiad Grŵp Tasg a Gorffen Polisi Iaith Addysg Drafft | Grŵp Tasg a Gorffen |
| | • Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Addysg | Craffu perfformiad adrannau'r Cygnor |
| | • Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Economi | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | • Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Cyllid | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | • Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a'r Gymraeg | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | | |
| **16/10/25** | • Strategaeth Economi Gwynedd | Blaengraffu / Cynllun Strategol |
| | • Cyfundrefn Addysg Drochi | Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Gymraeg |
| | • Strategaeth Caffael | Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Lewyrchus |
| | • Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol a'r Gymraeg | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | | |
| **11/12/25** | • Strategaeth Ysgolion | Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Yfory |
| | • Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Addysg | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | • Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Economi | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | • Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Cyllid | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | | |
| **19/1/26** ***(Cyfarfod Arbennig)*** | • Cynllun Ymateb | Sicrwydd o ran gweithrediad |
| | | |
| **12/2/26** | • Budd y Cynllun Twf i Wynedd | Mater yn codi o graffu perfformiad |
| | • Ardoll Ymwelwyr | Effaith ar Wynedd |

## PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

| Dyddiad | Eitemau | Rheswm dros graffu |
|---|---|---|
| **5/6/25** | • Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Amgylchedd | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | • Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a Ymgynghoriaeth Gwynedd | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | | |
| **18/9/25** | • Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur: Adroddiad Blynyddol 2024/25 | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | • Trefniadau Graeanu a Biniau Halen | Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 28 Medi 2022 |
| | | |
| **6/11/25** | • Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a Ymgynghoriaeth Gwynedd | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | • Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Amgylchedd | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | | |
| **22/1/26** | • Cais i graffu gan aelod o'r cyhoedd – Materion Ariannu'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur | Sicrwydd o ran trefniadau ariannu |
| | • Adolygiad o'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur | Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | • Teithio Llesol | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | • Adroddiad Cynnydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn | Rôl y Pwyllgor i graffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| | | |
| **19/3/26** | • Diweddariad Blynyddol gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn | Rôl y Pwyllgor fel Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn |
| | • Gwasanaethau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu | Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd |
| | • Llwybrau | Sicrwydd o ran gweithrediad |

## PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

| Dyddiad | Eitemau | Rheswm dros graffu |
|---|---|---|
| **12/6/25** | • Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Tai ac Eiddo | Craffu perfformiad adrannau'r Cygnor |
| | • Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Oedolion | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | • Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Plant | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | | |
| **25/9/25** | • Adroddiad Blynyddol 2024-25 - Gweithdrefn Cwynion, Ymholiadau a Diolchiadau – Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Adran Oedolion | Sicrwydd o ran y trefniadau ar gyfer delio gyda chwynion ym maes gwaith gofal |
| | • Rhyddhau o'r Ysbyty | Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar |
| | • Cydweithio gyda'r gymuned | Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar |
| | • Tai Gwag | Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Glyd |
| | | |
| **18/12/25** | • Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Tai ac Eiddo | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | • Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Oedolion | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | • Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Plant | Craffu perfformiad adrannau'r Cyngor |
| | • Brîff Drafft Grŵp Tasg a Gorffen – Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol | Grŵp Tasg a Gorffen |
| | | |
| **13/1/26 *(Cyfarfod Arbennig)*** | • Cynllun Ymateb | Sicrwydd o ran gweithrediad |
| | | |
| **29/1/26** | • Strategaeth Cadw Teuluoedd gyda'i gilydd | Y ddarpariaeth bresennol a'r adnoddau sydd ar gael i wireddu'r strategaeth |
| | • Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | Sicrwydd bod y gwasanaeth yn effeithlon |
| | • Tîm 16+ | Sicrwydd o ran y ddarpariaeth ar gyfer rhai 16 oed+ |

**Mabon ap Gwynfor AS/MS**
**Gweinidog Cabinet dros Iechyd a Gofal**
**Cabinet Minister for Health and Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MG/06237/26

Elin Walker Jones

AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru

14 Medi 2026

Annwyl Elin Walker Jones,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 6 Awst ar ran Cyngor Gwynedd ynghylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi bod ar y lefel uwchgyfeirio uchaf yn GIG Cymru ers mis Chwefror 2023 oherwydd pryderon sylweddol ynghylch llywodraethu, arweinyddiaeth, diogelwch cleifion, a pherfformiad. Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud gan y bwrdd iechyd, gwyddom fod heriau parhaus wrth ddarparu gofal diogel, amserol, ac effeithiol i bobl yn y Gogledd.

Fel rhan o lefel uwchgyfeirio 5, mae'r bwrdd iechyd yn destun mwy o oruchwyliaeth a chraffu gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â chymorth wedi'i dargedu i yrru'r gwelliannau angenrheidiol mewn gofal a'r ddarpariaeth o wasanaethau i gleifion. Mewn datganiad i'r Senedd ar 30 Mehefin, cyhoeddais fesurau newydd i sefydlogi gwasanaethau, cryfhau arweinyddiaeth, a sicrhau bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn atebol am weithredu gwelliant parhaus, fel rhan o'r trefniadau uwchgyfeirio lefel 5 sy'n parhau yn y bwrdd iechyd.

Bydd hyn yn cynnwys cymorth wedi'i dargedu'n uniongyrchol gan Berfformiad a Gwella GIG Cymru, gan ddod ag arbenigwyr gweithredol a chlinigol ynghyd i yrru gwelliant brys gyda ffocws ar y meysydd risg mwyaf dybryd sy'n effeithio ar y sefydliad ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi comisiynu adolygiad o ansawdd arweinyddiaeth a fydd yn rhoi darlun llawn o sefyllfa bresennol y bwrdd iechyd, gan gynnwys heriau gweithredol, arweinyddiaeth, a diwylliant. Mae panel arbenigol, a benodwyd yn genedlaethol, bellach wedi dod at ei gilydd i gynnal yr adolygiad.

Welsh Government Offices, Cathays Park,
Cardiff. CF10 3NQ
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays,
Caerdydd. CF10 3NQ


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mabon.apGwynfor@llyw.cymru
Correspondence.Mabon.apGwynfor@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr iaith honno ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Disgwylir i adroddiad terfynol yr adolygiad o arweinyddiaeth gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2026. Rwyf wedi bod yn glir fy mod yn disgwyl i'r adroddiad hwn ddarparu argymhellion clir sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan sicrhau tryloywder ynghylch y newidiadau sydd eu hangen er mwyn fy helpu i benderfynu ar y camau nesaf mwyaf priodol ar gyfer gweld gwelliannau'n cael eu cyflawni er budd pobl y Gogledd.

Yn gywir,



**Mabon ap Gwynfor AS**
Gweinidog Cabinet dros Iechyd a Gofal
Cabinet Minister for Health and Care